

CLONC

golygydd@clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 258 - 50c
Tachwedd 2007

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Llyfr
Twynog
ar werth



Hanes
Beicwyr



Tudalen 7

Ymddeol ar
ôl gwasanaeth
gwerthfawr



Tudalen 10

Doniau Disglair



Disgyblion Ysgol Gyfun Llambod yn ystod un o'u hymarferion ar gyfer y sioe gerdd 'High School Musical' a berfformiwyd yn Neuadd yr Ysgol o Hydref 22ain-24ain

Pwy yw pwy?

Golygyddion:

Tachwedd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Rhagfyr	Eifion ac Yvonne Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tim Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambled	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Iorwerth Evans, Greenwell	493484
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Twynog Davies, Frondolau, Llambled	422880
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015

Beth yw beth?

Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Wyn, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llambled	

Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambled	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Prosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro:

Megan Jones	23 Stryd Fawr, Llambled	423410
Guto Jones	36-38, Pendre, Aberteifi	01239 621828

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

• Mae rhannau o Clonc ar y we ar safle Cymru'r Byd y BBC:

www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc

• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.

• Ewch a'ch newyddion at eich gohebydd lleol.

• Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.

• Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk

• Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.

• Croesawn luniau digidol ar ddisg neu CD, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk.

• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

Siprys

Hydref.

Ydi, mai hydref yn dod ar draws pob un ohonom, yn dymhorol ac o ran oedran hefyd. Mae'n ddealladwy fod rhai sydd a'i hiechyd yn pallu yn gorfod mynd i gartref henoed. Siom yw deall fod aml i barau priod yn cael eu gwahanu i wahanol gartrefi, filltiroedd oddi wrth ei gilydd. Deallwn fod gofynion unigolion yn gwahaniaethu yn fawr ond mae'n greulon nad oes modd cadw pobl sydd wedi bod yn briod am ddegawdau o dan yr un to. Mae angen gwneud ymdrech i hwyluso'r drefn.

Proffwyd.

Rwy'n cofio dros ddeugain mlynedd yn ôl rhoi reid i 'berson' o ben Trichrug ar noson stormus ofnadwy o hydref. Parblu yn ddi-ddiwedd wnaeth, a byrdwn ei bregeth y noson honno oedd fod y llywodraeth yn ein twyllo. Yr hyn a'i gorddai oedd y newid o ddefnyddio 'Fahrenheit' wrth fesur y tymeredd i 'Centigrade'. Y rheswm am hyn meddai oedd fod y byd yn cynhesu ac roedd y llywodraeth ddim am i ni, y bobl gyffredin, sylweddoli hyn gan nad oeddem wedi cyfarwyddo â'r graddau newydd.

Tueddi i chwerthin am ei ben roedd pawb y pryd hynny, ond, o ail feddwl am y peth nid oedd ei ddamcan-iaethau mor ffôl â hynny. Ydi hi'n deg i ddweud am hwn, "gan y gwirion y ceir y gwir". Tybed ai fe oedd yn gall a'r gweddill ohonom yn wirion.

Colli cyn athrawes.

Cafodd tyrfa enfawr gyfle i ffarwelio â Mrs Sulwen Thomas yn ddiweddar. Talwyd teyrngedau lawer iddi am ei gwaith gyda phlant yr ardal. Rwy'n cofio iddi orfod rhoi tipyn o gerydd i fachgen yn ysgol Cwrtnewydd am roi cweir go dda i fachgen arall. "Gorfod i fi rhoi row i'r mab meddai, ond wedyn rown i'n teimlo fel rhoi mraich amdano, pan holais i iddo pam y bwrest ti e, ei ateb oedd – "o'dd e'n ein bychanu ni Miss". Na, fe ddaliodd Sulwen i edrych ar ôl y 'ni' yma drwy gydol yr amser.

35 oed. Pwy?

Neb llai na Theatr Felinfach. Ifan Gruffydd ar y radio y funud yma yn atgoffa dyn am y pantomeimiau yn Felinfach. Un agwedd yn unig o waith y ganolfan yma. Faint o drigolion yr ardal sydd wedi cyfrannu i weithgaredd hon. Mae darllen y bwrdd gwyn ym mynedfa'r theatr yn rhoi syniad i ni o'r gwahanol rai sy'n cyfarfod yno. Llauenydd yw gweld fod llawer o'n hieuenctid yn gwneud eu prentisiaeth yn y theatr ac yn symud ymlaen i waith proffesiynol. Dim ond eich atgoffa – cymerwch pob gyfle i gefnogi gweithgaredd gynhelir yn hon. Bydd 'Bontlwyd' wedi dechrau ers Dydd Llun pan ddaw Clonc allan, un arall o gynyrchiadau'r Theatr i Radio Ceredigion. Os gwelwch chi 'Winston' ar eich taith cofiwch ddweud wrtho am fod bach yn fwy amyneddgar gyda phobol. Nid yw bod yn ddiamynedd yn gwneud dim lles i'w iechyd e. Dyna fe, un fel na yw e.

Hwyl Cloncyn.

Dyddiadur



TACHWEDD

- 1 – 3 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion yng Ngholeg Prifysgol Llambled.
- 3 Cyngerdd gan Gôr Godre'r Aran yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7:30y.h.
- 5 – 8 Sioe Gerdd 'Joseff' yn Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi, Llandysul.
- 8 Oedfa Eciwmenaid yn Noddfa am 7 y.h.
- 10 Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 17 Noson yng Nghwb Rygbi Llanybydder fyda Roystn Jones duo a Dai Jenkins, Llansawel a 8y.h. Elw i Cancr Cymru.
- 19 Lansio Pwyllgor Apêl Plwyfi Llanwenog a Llanwnnen ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 yn Neuadd Drefach am 7.30y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 23 Noson i Anrhydeddu Elin Jones A.C. yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7y.h. £10.00 yn cynnwys bwffe. Manylion pellach o dan Llanwnnen
- 24 Arwerthiant Blynnyddol Seion, Cwrtnewydd am 3y.p.
- 25 Oedfa Sul yr Urdd yn Soar am 7 y.h.
- 29 Ffair Lyfrau, Stondinau 'dolig a Bingo yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7y.h. gyda Ysgol Llanwnnen.
- 30 Y bedwaredd Ffair Grefftau ac arddangosfa flynyddol yn Neuadd y Coroniad Pumsaint. Raffl at Gncr y Fron Cymru. Te a Choffi. Dewch i gefnogi crfftwyr lleol.

RHAGFYR

- 1 Y bedwaredd Ffair Grefftau ac arddangosfa flynyddol yn Neuadd y Coroniad Pumsaint. Raffl at Gncr y Fron Cymru. Te a Choffi. Dewch i gefnogi crfftwyr lleol.
- 7 Noson Goffi yng Nghartef yr Annedd am 6:30y.h.
- 9 Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Llanwnnen gan Gôr Lleisiau'r Werin, Manon Haf a phlant Ysgol Llanwnnen am 7 o'r gloch.
- 10 Bydd Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Llambedr Pont Steffan yn cynnal gwasanaeth plygain yng Nghapel y Coleg am 7.00y.h. dan arweiniad y caplan, Matthew Hill.
- 16 Merched y Wawr Llanybydder yn cynnal Noson Nadligaid gyda artistiaid lleol a Lleisiau'r Werin yn Eglwys Sant Pedr Llanybydder am 7y.h. darperr lluniaeth Nadolgaidd.
- 19 Gwasanaeth Nadolig Ysgol Llanwnnen yng Nghapel y Groes.
- 22 Carol, Cerdd a Chan yn Eglwys Sant Pedr Llambled am 7y.h.

2008

IONAWR

- 14 Pwyllgor Canmlwydiant Ysgol Llanwnnen 7y.h.

HYDREF

- 18 Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

Mis Tachwedd – Dyfodol y Gymraeg. Cyhoeddwyd arolwg o ystadegau Cyfrifiad 1981 gan Gyngor Sir Dyfed yn 1984, ac mae'r erthygl yn dyfynnu R.S.Thomas yn 'cymell pob Cymro i wneud niwsans ohono'i hun pan fydd y nerthoedd Seisnig yn trio gwneud i chi deimlo'n alltud'.

1982 Cwmann – 5 o evacuees yn dod nôl o Lundain am dro. C.Ff.I. yn gwthio llo aur o Gwmann i Lanberis er mwyn codi arian i adran cardioleg Glangwili. Llanfair Clydogau – Swper mawr yn sgubor fferm Pentre yn codi dros £1000 tuag at Sioe Llanellwedd 1983. Llambod - Siop Lemuel Rees yn cau gydag ymddeoliad Joan, Ken a Glenys Rees.

1983 Cwmann – Talentau bechgyn lleol; Mark Douglas yn eilydd yn nhîm rygbi Cymru; Karl Jones yn cynrychioi Cymru yn y 'Formula Ford World Cup', ac Aled Williams yn aelod o dîm Prydain Fawr (y 4 yn Gymry,) rasio motor beics traws gwlad. Côr 'Brethyn Cartre' yn 10 oed - Caset 'Cainc a Charol'. Drefach/Llanwenog - Coeden afalau yn ei blodau ger Maesyfelin.

1984 Llun-Plant Ysgol Ffynnonbedr yn 1964. Cwrtnewydd – Mary Harries, Gelly yn ymddeol fel cogyddes yr ysgol. Cwmsychpant – Arwyn a Hetty Evans yn ymddeol fel ceidwaid y Capel. Golygyddol – galw ar ddarlennwyr Clonc i ymateb i'r newyn a'r angen yn Ethiopia.

1985 Llangybi – 4 pâr o efeilliaid yn Ysgol y Dderi. Llanybydder – Plant yr ysgol yn coffau 200 ml. ysgolion Sul yng Nghymru. Llambod. Plant yr Ysgol Gyfun yn cynnal gwasanaeth Diolchgarwch, - y cyntaf o fewn cof yr athrawon. Sioni Winwns nôl yn Llambod - wŷr i Francis a ddeuai yma flynyddoedd yn ôl. Ias yn y camera – Parti Calangaeaf yr Urdd - pawb wedi gwisgo fel ysbrydion, gwrachod a bwganod. 2 gamera Clonc yn tynnu lluniau – ond ni ddatblygodd yr un llun !!!

1986 Llangybi yn ennill plac 'Pentre Taclusa Ceredigion 1986'. Llambod – Nansi a Joan Evans yn ymddeol fel cogyddesau yn yr Ysgol Gyfun.

1987 Lluniau'r llifogydd wedi'r glaw ofnadwy – 6 modfedd dros y penwythnos ddiwedd mis Hydref. Llambod - Cyfres 'Dihrod Dyfed' o waith Bethan Phillips, yn ymddangos ar y teledu. Llanwnnen Tafarn y Fish & Anchor yn cael ei hen enw yn ôl, sef 'Y Gerdinen'.

1988 Llanwenog/Drefach. Capel Brynteg yn dathlu Canmwyddiant a hanner. Alltlyblaca -Arddangosfa 'Celtic Lights' o waith Pete Davies, (Ffotograffydd) ar daith drwy Gymru. Llambod.- Paul Jones, Pencampwr marchogaeth beic Cymru.

1989 Llangybi - Pentre Taclusa' Ceredigion, ail-daclusa' Dyfed. Llambod- Mr Stephen Jones, gynt o Rosedale, yn 100 oed.

1990 Cwmann. Dathlu 100 mlwyddiant Eglwys Sant Iago yng nghwmni Archesgob Cymru, y Gwir Barch. Ddr. George Noakes. C.Ff.I. Dylan Lewis yn ennill Cadair Eisteddfod Sir Gaerfyrddin. Llambod Yr Ymgyrch dros Ysgol Ddwy-ieithog yn cynnal modurad i Gaerfyrddin, i gyflwyno llythyr i Swyddogion Awdurdod Addysg Dyfed.

1991 Llambod. Andrew Jones, Pentreshôn, pencampwr gwneud ffyn De Cymru, mewn sioe yn Sain Ffagan. Llangybi. Siopwr yn gwrthod arddangos posteri Cymraeg – y Ffermwyr ifainc yn protestio. Plant Ysgol y Dderi yn ennill £1000 a chyfrifiadur oddiwrth BT am greu atlas o'r gymuned.

1992 Yr ymgyrch am addysg ddwy-ieithog yn dal i frwydro, - protest yn Neuadd y Sir Gaerfyrddin wrth i Bwyllgor Addysg Dyfed gwrdd. Llanllwni. dechrau gwasanaeth pryd-ar-glud yn y pentre.

1993 Gorsgoch. – Tristwch o glywed fod Ysgol y Blaenau i gau.

Llambod.- Neuadd yr Eglwys ar agor er mwyn casglu bwyd a blancedi i anffodusion Sarajevo. Cellan – Llŷr Thomas, Llain dêg, 'mascot' tîm rygbi Cymru, yn eu harwain allan i'r maes ym Mharc yr Arfau.

1994 Llanybydder – Gwagedd Aberduar yn teithio i Ruthin er mwyn cefnogi Miss Maggie Lewis, Stafellwen gynt, fel Llywydd Chwirydd Bedyddwyr Cymru. Gorsgoch. 19 erw o dir Glydwr yn cael ei glustnodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) gan y llywodraeth. Mae'r cynllyn eisioes wedi ennill 2 wobwr yn 1987 a 1990. Llambod – Aelodau Shiloh yn cydnabod gwaith y Parch. Ludwig Jones – 50 mlynedd yn y weinidogaeth. Tîm Cried Llambod wedi ennill Pencampwriaeth Adran 1 Gorllewin Cymru. Twynog Davies yn derbyn anrhydedd Cydymaeth y Sioeau Brenhinol ARAGS am ei gyfraniad arbennig i fyd amaeth.

1995 Llambod Noson arbennig o osod blodau yn Neuadd y Celfyddydau, yng nghwmni Mrs. Iona Trefor Jones. Llanybydder. Cangen Plaid Cymru yn cofio DJ Williams. Drefach/Llanwenog. Capel Bethel yn rhoi anrheg i Mrs Mair Williams am ei gwasanaeth fel organyddes am 50 mlynedd.

1996 Llambod- Oedfa undebol y Bedyddwyr yn Noddfa i ddathlu penblwydd y Parch. WJ Gruffydd yn 80 oed; rhoddion y casgliad yn mynd i 'Hafan Deg'. Agoriad swyddogol y Ganolfan Hamdden. Cellan – Dillad Jo Conti yn y Sioe Ffasiynau Cymreig – ac i'w dangos mewn Sioe Ffasiynau yn Neuadd y Celfyddydau eto. Cwmsychpant – Teyrnged coffa i Mrs Mary Havard

1997 Llambod Agoriad swyddogol y rinc dan do yn y Clwb Bowlio. Ail-agor Capel Shiloh wedi ei atgyweirio. Capel Noddfa yn dathlu 100 mlwyddiant. Clwb Sarn Helen 7 aelod wedi rhedeg marathon yr Wyddfa. Cwmann Lyndon Gregson yn ennill ei gap 1af dros Gymru yn y Tîm Peldroed dan 15.

1998 Llambod – Y Cylch Cinio yn 25 oed. Lansio llyfr Bethan Phillips 'Rhwyng Dau fyd', - hanes Joseff Jenkins, y Swagman o Geredigion. Cwrtnewydd – Lyn Rees, Tanrhos yn rhedeg ras 52 milltir yn Llundain, ac yn codi arian i Ymchwil Cancr. Gorsgoch – Aduniad Ysgol Gorsgoch i gofio 100 mlwyddiant ei hagog.

1999 Llambod Yr Ysgol Gyfun yn dathlu'r 50; apêl am luniau. Teyrnged goffa i Mr Eric Slaymaker Llanybydder – Cwpan Aur y Byd Rygbi yng Nghlwb Rygbi Llanybydder. Cwmann – Arthur Davies, Dolcoed – Llywydd Cymdeithas Tir Glas Prydain.

Cymeriadau Bro

Y Lansio

Roedd y Grannell, Llanwnnen dan ei sang nos Iau 25 Hydref ar gyfer Noson Lansio cyfrol 'Cymeriadau Bro' gan Twynog Davies.

Cyfrol yw hon yn cynnwys erthyglau ar 44 o gymeriadau a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn Clonc. Fel rhan o ddathliadau pen-blwydd y papur, cyhoeddwyd y gyfrol.

Cafwyd cyhoeddusrwydd da i'r noson o flaen llaw gydag eitemau ar Radio Ceredigion, Radio Cymru ac ar Wedi 7.

Daeth rhyw 140 o bobl ynghyd i'r lansiad a braf oedd gweld nifer fawr o'r cymeriadau eu hunain yn bresennol. Cyflwynodd Dylan Lewis y siaradwyr gwadd sef Twynog Davies, John Williams, Andrew Jones, Dylan Iorwerth a Megan Jones. Darllenodd Dylan Iorwerth englyn o'i waith hefyd.

Aredig portreadau - yn nhir bras
Daeir bro; rhoi'r geiriau
Yn oludog fel hadau
Yn y pridd - er mwyn parhau.

Cafwyd dwy gân gan Kees Huysmans gydag Elonwy Pugh yn cyfeilio. Gwahoddodd y gynulleidfa i ymuno ag ef yn yr ail gân. Y cyfan yn ddifyr ac yn adloniant pur.

Gweinwyd cawl blasu a phice bach gan staff y Grannell wedyn, a phawb wedi mwynhau gwledd.

Yn ystod hyn oll, gwelwyd lluniau o'r cymeriadau sy'n destun i'r gyfrol ar sgrîn fawr yn yr ystafell.

Cyfrannodd nifer o bobl wobrau i'r raffl, a gwerthfawrogir hynny'n fawr iawn. Yr enillwyr oedd: Gwynfor Lewis, Alan Morgan, John Meirion Jones, Liz Mills, Megan Jones, Magw Hughes, Rhian Twynog, Anita Williams a Twynog Davies.

Cyn i bawb gasglu a phrynu eu copïau Diolchodd Dylan i bawb a gymerodd ran, ac i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson a'r gyfrol. Cyflwynwyd tlws i Twynog fel gwerthfawrogiad o'i waith gan Iestyn a Morgan, a chyflwynwyd blodau i Hazel gan Sara a Mari.

Bu Twynog yn ddigon caredig i arwyddo llyfrau i'r rhai â diddordeb, tra bu gweddill y gynulleidfa yn cymdeithasu wedi noson hwylus a braf.

Gwerthfawrogwyd cydweithrediad swyddogion Prosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro gyda chasglu deunydd a theipio. Diolchir hefyd am gefnogaeth ariannol 'Milltir Sgwâr' a 'Cynnal Ceredigion', ac i wasg Y Lolfa am eu gwaith glân.

Gwerthwyd 272 o danysgrifiadau o flaen llaw, a diolch i Nia a Mary am y gwaith gweinyddu trefnus.

Gobeithir y bydd y llyfrau ar werth nawr yn yr un siopau sy'n gwerthu Clonc o fis i fis yn ogystal ag ambell siop arall yn yr ardal. Bargen am £4.95. Os na ellir dod o hyd i gopi ffoniwch Nia neu Mary ar 01570 480015. Bydd unrhyw gostau postio yn ychwanegol.

Cymeriadau Bro

gan Twynog Davies

Ar werth yn y siopau lleol nawr
am £4.95



Cafwyd dechrau mis llwyddiannus iawn i'r clwb wrth i ddau aelod ennill medal aur Gymreig. Bu Dawn Kenwright a Mark Dunscombe yn cystadlu mewn marathon ar Ynys Môn. Cwblhaodd Dawn y marathon mewn 3 awr 22 munud ac ennill y categori i fenywod dros 50, hefyd enillodd y fedal aur Gymreig yn yr un categori. Bu Mark yn llwyddiannus yn y categori i ddynion dros 45 ac ennill y fedal aur Gymreig. Arbennig!

Ar ddydd Sadwrn bu Dawn Kenwright yn cystadlu mewn ras 'Penmine Pool' sef ras 10 milltir ger Dolgellau. Fe wnaeth Dawn yn dda iawn i orffen yn y safle cyntaf i fenywod dros 50 oed.

Ar ddydd Sadwrn yng nghanol y mis aeth rhedwyr i gystadlu yn y rownd gyntaf o Bencampwriaeth Traws Gwlad Cynghrair Gwent.

Canlyniadau:

Bechgyn dan 13 oed

Hefin Jones – 31, Dylan Davies 41, Ben Baddeley 46.

Merhced dan 13 oed

Rhian Jones – 47

Dynion

Perfformiadau arbennig yn y ras yma gyda 4 rhedwr o'r clwb yn gorffen yn y 60 cyntaf. Mae hyn yn dipyn o gamp i glwb bach fel Sarn Helen yn erbyn clybiau mawr de Cymru.

Carwyn Thomas 26, Andrew Abbott 38, Glyn Price 54, Irfon Thomas 59, Mark Dunscombe 131, Richard Marks 157, Huw Price 161, Lyn Rees 240 a Gareth Jones 243.

Menywod

Dawn Kenwright 31, Caryl Davies 87, Janet Jones 92 a Dinah Jones 113.

Ar y Sul aeth nifer o'r aelodau i gystadlu mewn ras y Dau Begwn yn Aberystwyth. Ar ôl cystadlu arbennig y diwrnod cynt, Carwyn yn gwneud yn arbennig i ennill y ras mewn amser ffantasig o 46 munud 13 eiliad. Fe wnaeth Caroline John hefyd ennill y categori i fenywod dros 35. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Ysgol Carreg Hirfaen

Ar Fedi 24ain, cafodd disgyblion C.A.2 fynd ar drip i Faenordy Llancaiach Fawr. Cafwyd diwrnod diddorol iawn yn dysgu am ffordd o fyw pobl o Oes y Tuduriaid a'r Stiwtariaid. Roedd yn rhyfedd clywed y tywyswyr yn siarad yr hen iaith Saesneg ac yn fwy rhyfedd clywed am y pryfyn dannedd!!

Ar ddydd Iau Medi 27ain, cafodd blynyddoedd 2, 3, 4, 5 a 6 gyfle i fynd ar daith gerdded yr Urdd. Buon ni yn cerdded i fyny Mynydd Llanllwni. Dyna beth oedd taith - 8 milltir i gyd! Roedden ni wedi mwynhau mas draw ac rydyn yn edrych ymlaen at y daith nesaf.

Mae'r Urdd wedi dechrau yn yr ysgol erbyn hyn – cafwyd gêm cardiau a balwnau ar Hydref 4ydd, gêm swnllud iawn gyda balwnau yn cael eu byrstio trwy'r nos! Enillydd y gêm oedd Julianna Barker – da iawn ti. Yna, ar Hydref 18fed cafwyd noson o gadw'n heini gyda Paul Jones. Ar ôl 10 munud roedd wynebaw coch iawn gan nifer o'r plant a'r staff!! Mwynhaodd pawb y noson yma yn fawr iawn. Diolch i Paul am ein helpu.

Unwaith eto eleni, cafwyd prynhawn o ddiolchgarwch yn Eglwys Sant Iago, Cwmann ac yn Eglwys Llanyerwys. Bu'r plant yn diolch am y pum synnwyr ac am yr hyn rydym yn ei dderbyn yn gyson trwy gydol y flwyddyn. Casglwyd £240 tuag at elusen Tŷ Hafan.

Ar brynhawn dydd Gwener Hydref 19eg, braf oedd cael cyfle i weld Sioe Gerdd Ysgol Gyfun Llambled – "High School Musical." Bu blynyddoedd 4, 5 a 6 yn eistedd a gwrando yn ddiwyd trwy gydol y perfformiad ardderchog. Hyfryd oedd gweld cynifer o gyn-ddisgyblion Carreg Hirfaen yn rhan o'r perfformiad – ar y llwyfan a thu cefn y llwyfan – da iawn chi.

Nôl ym mis Mai bu plant blynyddoedd 3 a 4 yn plannu llysiau a blodau yn yr Ardd Fotaneg. Ar ddechrau mis Hydref cawsom wahoddiad i fynd yn ôl i'r ardd i gynaeafu ein llysiau. Roeddem wedi mwynhau yn fawr iawn ac wedi dod yn ôl i'r ysgol gyda llond sach o lysiau. Cafodd y plant y cyfle (o dan arweiniad ein cogydd newydd; Mr Evans) i ddefnyddio'r llysiau yma i goginio cawl. Roedd y cawl yn hyfryd.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd rhan yn nhrawsgwlad ysgolion Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Roedd tros gant o blant ym mhob ras. Daeth llwyddiant i rai o'r disgyblion wrth i Rhys Bowden ddod yn wythfed a Rhys Cadogan yn bedwaredd ar bymtheg yn eu rasys nhw. Da iawn chi.

Etholwyd aelodau Cyngor Ysgol Carreg Hirfaen am y flwyddyn yn ddiweddar ac yn cynrychioli disgyblion yr ysgol eleni y mae Hanna Evans, Morgan Lewis, Gethin Morgan, Hannah Evans, Sulwen Richards a Kieran Hunter. Llongyfarchiadau mawr, a phob lwc iddynt fel Cynghorwyr Ysgol.

Cwmann

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Ieuan ac Annie Jones, Arfryn ar ddathlu eu priodas Aur yn ystod y mis. Gobeithio i chi fwynhau y diwrnod.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theuluoedd Mrs. Maggi Jones, Werna a fu farw yn ysbyty Llanymddyfri yn ddiweddar ac yr un modd estynnwn ein cydymdeimlad â Rhodri a Llyr Thomas yn eu tristwch a'u galar o golli ei mam Sulwen Thomas, Llaindeg, Cellan ac hefyd a theuluoedd Mr. Macmillan, Llanybydder a fu farw yn ddiweddar.

Wyres Newydd

Llongyfarchiadau i Tom a Veronica James, Caeralaw ar ddod yn dadcu a mamgu unwaith yn rhagor.

Gwellhad buan.

Mae Glesni Thomas, I Heol Hathren a Tina Hope, Postgwyn newydd dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Hefyd mae Mrs. Evans, 24 Heol Hathren yn yr ysbyty ar ôl iddi gwympo yn ei chartref. Dymuniadau gorau am wellad llwyr a buan i'r tair.

Clwb 225 Mis Hydref

1. Gareth Russell, Bryncelyn, Cwmann, 2. Wendy Evans, Parcyrrhos, Gorsgoch, 3. Mrs. Gwen Jones, Gellidewi, Cwmann, 4. Miss. Rhian Jones, Hafod, Cwmann, 5. Edwin Harries, 8, Nantyglyn, Cwmann, 6. Owen Thomas, Waunygors, Cae Ram, Cwmann, 7. Edwin Harries, 8 Nantyglyn, Cwmann, 9. Mrs. Betty Davies, Manglas, Cwmann, 10. Mr. Dylan Lewis, Ty-Cerrig, Cwmann.

Sefydliad y Merched

Y noson gyntaf ym Mis Hydref oedd nos ein cinio flynyddol. Gwnaethom drafaelio ar fws o Gwmann i Langadog, lle cawsom groeso cynnes iawn yng ngwesty'r Goose and Cuckoo. Mae enw'r dafarn yn deillio o'r ffaith bod porthmyn wedi arfer gyrru gwyddau o Langadog i Lundain ac ar y siwrne, rhaid oedd iddynt deithio ar hyd 'Tro Gwew'. Cafwyd pryd blasus dros ben o fwyd, y cyfan wedi ei baratoi ar y safle. Diolchodd y llywydd, Noeleen i'r perchenogion am y wledd. Ein gwraig wadd ar y noson oedd Sylvia Rees, sy'n aelod blaenllaw iawn o'r sefydliad yn ei changen yn Llanwinio ac hefyd ar lefel sirol. Bu Sylvia'n sôn am adeg ei phlentyndod – yn un o deulu o chwech o blant, ac yn cymharu'r amser hynny a heddiw. Cafwyd aml i stori ddigri ganddi am ddigwyddiadau yn ystod y blynyddoedd cynnar rheiny yn ei bywyd, a chadwodd ni i chwerthin drwy gydol y sgwrs. Mae'n angenrheidiol, meddai Sylvia i ni, gael helaeth o hiwmor yn ein bywydau. Diolchwyd i Sylvia am waith ysgafn, hyfryd; ac hefyd i'w ffrind Marisi am ddod gyda hi gan yr is-lywydd, Gwen. Cafwyd cyfarfod byr, pryd y dymunodd Noeleen yn dda i Glesni, a oedd wedi derbyn llaw-driniaeth yn Ysbyty Llanelli y diwrnod cynt. Hefyd, llongyfarchodd Elina ar ddathlu ei phriodas ruddem, ac Avril ei phriodas aur. Aed dros y llythyr Sirol, a thrafodwyd rhai o'r pynciau. Wedi tynnu'r raffl, pryd y gwnaeth pob un ennill gwobr, yn ôl i'r bws am adre, a phawb wedi cael noson wrth eu bodd.

Croeso

Croeso cynnes i Dafydd a Kay Lewis i fyw yn eu cartref newydd ym Mhantmeinog.

Bethel Parcyrrhos

Cafwyd cyngerdd llwyddiannus iawn yng nghwmni Côr Merched Corisma nos Sul 21 Hydref. Braf oedd gweld y capel a beintwyd yn ddiweddar yn llawn ar gyfer y cyngerdd.

Dyma beth oedd noson o safon a'r côr yn canu'n swynol o dan arweiniad Carys Lewis ac i gyfeiliant Elonwy Davies, Alwena Roberts a Sally Saunders. Cafwyd eitemau unigol gan Sally Saunders, Helen Roberts, Merched Malog a Carys Lewis, a'r cyfan wedi ei lywio'n fedrus o dan arweiniad Llinos Jones.

Cyflwynodd y gweinidog y parch Huw Roberts y llywyddion sef Eiddig a Gwen Jones, Gellidewi. Cafwyd araith bwrpasol gan Gwen a rhodd sylweddol oddi wrth y ddau tuag at apêl y noson sef Adran Oncoleg Ysbyty Glangwili. Cyflwynodd Adeline Williams drefniant o flodau gan Ann Lewis i Gwen ac i Carys.

Diolch i bawb â gyfrannodd, a gynorthwyodd ac a fynychodd y noson. Codwyd swm sylweddol o arian.

Theatr Bara Caws yn cyflwyno

TRI RHAN O DAIR

gyda Owen Garmon, Valmai Jones ac Olwen Rees

Tri Unigolyn, tair sefyllfa, un o'r galon. Mewn addasiad newydd o dair fonologau 'Talking Heads' Alan Bennett. Mae Bara Caws wedi comisiynnu Owen Garmon, Valmai Jones ac Olwen Rees i baratoi eu fersiynau eu hunain o'r clasuron yma, Daw'r tri a'u profiad, eu dawn a'u lleisiau unigryw i greu cynhyrchiad dwys a doniol.

Cyfarwyddwraig: Betsan Llwyd

Nos Fercher, Tachwedd 14

– Neuadd Talybont, Aberystwyth

Nos Iau, Tachwedd 15 – Theatr Gromlech, Crymch.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i Miss Nia Griffiths ar ei swydd fel goruchwylwraig, yn y Clwb Brecwast, gyda Mrs Moira Jones. Mrs Jane Lloyd sy'n paratoi'r brecwast. Mae'r clwb yn boblogaidd iawn.

Cynhaliwyd taith gerdded lwyddiannus iawn ddydd Iau Medi 27ain a drefnwyd gan Gylch Llambod o'r Urdd. Cerddodd plant yr ysgol i gyd, ynghyd â phlant ysgolion eraill y cylch o Bentop i'r mastiau heddlu ar y mynydd. Cafwyd picnic cyn cerdded nôl i'r ysgol.

Cymerodd y plant ran yn y cwrdd diolchgarwch yn eglwys y plwyf brynhawn Iau Hydref 4ydd. Daethant â rhoddion i roi o flaen yr allor er mwyn eu gwerthu i apêl 'Send a Cow' yn Affrica.

Aeth tîm o'r Ardan Iau i gystadlu yng nghystadlaeth pêl droed 5 bob ochr yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llambod ar y 1af o Hydref. Llongyfarchiadau mawr i'r tîm am ennill y gystadlaeth ac fe fyddant yn mynd ymlaen i gynrychioli cylch Llambod yn Llangrannog ym mis Rhagfyr. Aelodau'r tîm oedd Dorian, Liam, Dyfan, Steffan, Daniel, Seirian a Gavin. Da iawn chi fechgyn.

Bu wyth o blant o'r Adran Iau yn rhedeg yn rاسus trawsgwlad ysgolion cynradd yn Ysgol Dyffryn Teifi bore Mawrth 16eg Hydref. Cawsant dystysgrif yr un am eu hymdrechion.

Cafwyd ymweliad gan Mrs Eleanor Thomas o Frigad Dàn, Caerfyrddin fore Gwener Hydref 19eg. Roedd y sesiynau'n addysgiadol a diddorol gan bwysleisio am y pwysigrwydd o gael larwm tân ym mhob cartref.

Aeth plant blynyddoedd 4, 5 a 6 i weld sioe Gerdd "High School Musical" yn Ysgol Gyfun Llambod brynhawn Gwener Hydref 19eg. Roedd y sioe yn werth i'w gweld ar ôl llawer iawn o waith caled gan y disgyblion a'r staff.

Croeso i Miss Esyllt Davies o Goleg y Drindod sydd allan ar ymarfer dysgu am chwe wythnos. Fe fydd yn dysgu'r babanod am dair wythnos ac yna symud ymlaen i un o'r dosbarthiadau Iau. Gobeithio y byddi yn hapus yn ein plith a phob lwc ar y dysgu.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol y tymor yma –

Medi –
£10 rhif 49-Tegwen Davies, Ninant, Llanllwni.
£5 rhif 147-Emyr Thomas, 6 Nantyglyn, Cwmann.
£2.50 rhif 114-Anwen Lloyd-Thomas, Crossroads, Llanllwni.
£2.50 rhif 168-Ruth Evans, Maes yr Onnen, Llanllwni.
£2.50 rhif 77-Robert Jones, Treetops Garage, Llanllwni.

Hydref –
£10 rhif -Huw Smith, 24 Pantyfedwen, Peniel.
£5 rhif 159-Arwel Rees, Llysywawr, Llanllwni.
£2.50 rhif 44-Geraint Jones, Highview, Llanllwni.
£2.50 rhif 26-Marina Jones, 9 Bryndulais, Llanllwni.
£2.50 rhif 155-Doris Jones, Glyntelor, Gwyddgrug.

Diolch

Dymuna Keith a Sylvia, Awstralia (Clynrhiced gynt) ddiolch am yr holl anrhegion a gawsant ar ben-blwydd Lili a Loti a hefyd am yr holl anrhegion ar achlysur bedydd Loti.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Elfryn a Julie, Delfryn ar enedigaeth merch fach, Elin Medi.

Hefyd i Keith a Meinir, Brynceirch ar enedigaeth Elan Sion.

Hefyd i Eifion a Mandy, Hafan Deg (Nanthendre gynt) ar enedigaeth merch fach, Tili. Chwaer fach i Justin a Sophie ac wyres i Dewi a Mair, Brynsiriol a Tim a Madge Tynewydd.

Dymuniadau gorau i'r tri teulu.

Eglwys Llanllwni

Cynhaliwyd Noson Bingo yn y Belle Vue tuag at Eglwys Llanllwni a gwnaed elw o £535. Diolch i bawb a fu yn cefnogi ym mhob ffordd.

Dathlu

Llongyfarchiadau i Dai Davies, Dolgors ar gyrraedd ei 65 oed – wedi gweithio bron i 40 mlynedd gyda T L Thomas a'i Fab, Cross Roads.

Llongyfarchiadau i Rhydian a Rhian, Bwlchgwynt ar ddathlu eu penblwydd yn 18 oed ddydd Sadwrn diwethaf. Mae Rhian bellach yn Canada gyda thîm hoci Ysgol Gyfun Llambod. Pob llwyddiant i'r dyfodol i'r ddau.

Capel Nonni

Mae Swyddogion Capel Nonni wedi trefnu cofnodi hyd y gellir manylion pob claddedigaeith ym mynwent y Capel. Gwnawn bob ymdrech i sicrhau bod pob cofnod a'r bedd yn hollol gywir. Os hoffech wirio unrhyw gofnod sy'n ymwneud â'ch Teulu chi yn bersonol a wnewch gysylltu â un o'r swyddogion sef Sallie Davies 01559 395268 neu Eirlys Davies ar 01570 481041 cyn diwedd mis Rhagfyr.

Cardiau Nadolig ar werth.

Yn dilyn cystadlaeth dylunio cerdyn Nadolig i Ysgolion Cynradd Ceredigion, a drefnwyd gan Bwyllgor Cyhoeddusrwydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 Ceredigion, mae'n bleser gennym gyhoeddi fod Siôn Ilar wedi

Cwmsychpant



Ers cychwyn y sioe yng Nghwmsychbant ychydig dros gwarter canrif yn ôl bydd y siec hon eleni yn dwyn y cyfanswm a gyflwynwyd i achosion da i dros £90,000. Y noson o'r blaen cyflwynodd y Llywyddion Ieuan ac Eluned James siec o £4,000 sef elw sioe 2007 i Gwenlais Chandler, Senior Sister a Lesley Jenkins, Senior Nurse o Adran Ddamweiniau ac Argyfwng Ysbyty Glangwili. Hefyd yn y llun mae -o'r chwith - Wendy Davies, Cyd -Ysgrifennydd, Hefin Jenkins, Cadeirydd, John Jones, Tresorydd a Carol Rees, Cyd-Ysgrifennydd.

Capel y Cwm

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm ar nos Iau, Hydref 20fed ac hyfryd iawn oedd gweld y lle wedi ei addurno gyda ffrwythau a llysiau'r maes a'r gynulleidfa yn niferus iawn. Y Parch Wyn Thomas oedd yn llywyddu ac ef a groesawodd y Parch Eileen Davies B.Th o Lanllwni atom. Cafwyd anerchiad amserol llawn afiaeth a phawb wedi mwynhau ei chwmni yn fawr iawn ac fe fyddwn siwr o'i gweld nôl yn y cwm yn fuan iawn. Yn gwasanaethu wrth yr organ oedd Mrs Bessie Williams, Clyncoch.

Dymunwn fel aelodau longyfrach y Parch Wyn Thomas ar ennill cystadlaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion fel Cadeirydd dan 26 oed.

Aelod Newydd

Mewn oedfa gymun yng Nghapel y Cwm yn ystod mis Hydref derbyniwyd Alan Rees o Gaerdydd ond mab y diweddar Emrys a Sally Rees, Caerfyrddin yn aelod llawn o'r capel gan y Parch Wyn Thomas.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Rhys Evans, Penffordd ar ennill gradd MSc o Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Pob dymuniad da i ti Rhys i'r dyfodol.

Hefyd, i Einir Ryder, Tyngrug-ganol am fod yn rhan o dîm buddugol Clwb Pontsian yng nghystadlaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion a gynhaliwyd yn Theatr Felinfach yn ddiweddar.

dewis 8 cynllun ac mae'r cardiau bellach ar werth. Derbyniwyd dros 300 o geisiadau gan blant yr ardal ac felly gwaith caled oedd dewis yr 8 cynllun buddugol.

Oddi fewn y cardiau mae cwpledi sydd wedi cael eu creu yn arbennig gan feirdd ifanc a thalentog sef Hywel Griffiths, Gareth James, Ceri

Croeso

Croeso cynnes i berchnogion newydd Brynbach. Gobeithio y byddwch yn hapus yn y Cwm.

Annwyl Olygydd,

Rwy'n ysgrifennu hanes Teledu Cymru, y cwmni teledu annibynnol Cymreig a Chymraeg a sefydlwyd ym 1961 i ddarlledu i'r cyfan o dde-orllewin a gogledd Cymru. Roeddwn yn Brif Gynhyrchydd y cwmni a dechreuom ddarlledu ym Medi 1962; ond aeth i'r wal erbyn Mai 1963, a throsglwyddwyd i gwmni TWW ei ddyledion, ynghyd â'i asedau - sef ei adeilad, ei offer, a'i holl ddeunydd rhaglenni a oedd ar ffilm neu mewn cyfrwng arall. Trist gorfod cofnodi i TWW ddewis distrywio popeth a ddaeth iddo o Deledu Cymru, a fu'n bennod bwysig yn hanes teledu yng Nghymru ar waetha'i wendidau a'i fethiant, ac yn garreg filltir ar y ffordd at sefydlu S4C chwarter canrif yn ôl.

Tybed a oes gan rai o'ch darllenwyr luniau (yn arbennig) neu hanesion am eu profiad yn cymryd rhan yn un o'n rhaglenni? Hoffwn yn fawr gael gweld rhai o'r olion hanes hyn a chael caniatad i ddefnyddio rhai ohonynt os byddant yn addas at bwrpas y llyfr. Byddaf yn mynegi fy nyled i berchennog pob llun a ddefnyddiaf, gan anfon y lluniau yn ôl.

Diolch yn fawr iawn.

Havard Gregory, 'Erw Gornel',
51 Heol y Coed, Rhiwbina,
Caerdydd CF14 6HQ.
Ffôn 029 . 2069 4667

Wyn Jones ac Eurig Salisbury.

Mae'r cardiau bellach ar werth mewn pecynnau o 8 am £2.50 y pecyn yn Siopau ji-binc neu cysylltwch â Ffôn ar 01974 202252 neu Mair ar 01545 570150.

Nifer cyfyngedig sydd wedi cael eu hargraffu - felly cyntaf i'r felin.....

Llanbedr Pont Steffan

Nyrsys Macmillan

Ar ddydd Gwener 28 Medi cynhaliwyd Bore Coffi yn Neuadd yr Eglwys i godi arian at Nyrsys Cancr Macmillan. O ganlyniad codwyd swm anrhydeddus o £1280. Estynnir diolch diffuant i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant mawr y Bore Coffi. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth a'ch haelioni at achos mor deilwng.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Derek a Janet, Haulfryn, 1 Maesyllan ddiolch yn ddiffuant i bawb am y llu cardiau, y blodau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Hannah Jones, 37 Stryd y Bont ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn dilyn marwolaeth ei gŵr William John. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol tuag at ward 'Skye' sef ward y plant sy'n dioddef o lewcemia yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd.

Sul yr Urdd

Cynhelir oedfa flynyddol 'Sul yr Urdd' yng nghapel Soar nos Sul 25 Tachwedd am 5 o'r gloch. Cymerir rhan gan Gôr yr Adran ynghyd â nifer o unigolion o'r Aelwyd a'r Adran. Caesglir tuag at achos da. Croeso cynnes i bawb.

Oedfa Eciwmenaidd

Cynhelir Oedfa Eciwmenaidd yn Noddfa nos Iau 8 Tachwedd am 7 o'r gloch. Pregethir gan y Parch Carys Ann, Glynarthen. Estynnir croeso cynnes i aelodau eglwysi Llambedd a'r cylch.

Aelwyd yr Urdd

Ar nos Fawrth 2il o Hydref, ail-gychwynnodd Aelwyd yr Urdd, Llambedd. Roedd 50 ohonom yn bresennol ac fe ddechreuodd y noson drwy ethol ein swyddogion newydd sef :- Cadeirydd – Daniel Edwardes, Is Gadeirydd – Megan Jenkins, Ysgrifenyddion – Cerys Roberts a Christina Davies, Trysorydd – Elliw Mair, Gohebydd y Wasg – Cari Lake. Ar ôl cyfarfod busnes byr aethom ymlaen â'r hwyl gan wrando ar 6 pâr yn cyflwyno eu 'Stori a Sain.' Roedd yn ddoniol i weld sut wnaeth y parau gwahanol gyflwyno'r stori. Difyr hefyd oedd gweld pa bâr oedd yn gwybod beth oedd ystyr "llwynog yn udo" a sut wnaethant gyflwyno'r "udo"!!

Mae Janet wedi cytuno i barhau fel arweinydd gyda chymorth Helen,

Geinor Medi, Rhian, Joy a Mareth ac mae nifer hefyd o gynorthwyr wrth gefn. Diolch i Joy, Roasaline a Helen am gynorthwyo Janet ar y noson. Am hwyl a sbri dewch i ymuno â ni!

Cylch Cinio

Estynnodd y Cadeirydd Owen Jones groeso cynnes i'r aelodau ar gychwyn tymor newydd. Braint oedd cael croesawu y gŵr gwâdd Geraint Lewis – brodor o Ynysybwl ond un a fu'n byw yn ein plith yng Ngheredigion ers sawl blwyddyn bellach ac un a gyfrannodd yn helaeth at fyd addysg cyn ymddeol. O ran diddordeb, mae ei briod Delyth yn ferch i'r diweddar Gwenfil Rees a oedd yn aelod ffyddlon o'r Cylch Cinio am flynyddoedd.

Mewn araith hynod addysgiadol ac amrywiol, cyfeiriodd at ei gefndir Saesneg ond yr oedd yn ddyledus i gyn Brifathro Ysgol Gyfun Llambedd, Aneurin Jones am ei annog i feistrioli'r Gymraeg. Soniodd am sawl agwedd ddiddorol o fywyd Ceredigion yn cynnwys enwau a chefnidir ein trefydd ac ardaloedd gwledig. Mewn arolwg gan gwmni 'Beaufort Research', 17% o drigolion y Sir sydd yn ymddiddori yn y Celfyddydau ond yr oedd y siaradwr yn amau y ffigwr yma yn fawr yn enwedig wrth gofio fod y Sir yn byrlymu o weithgareddau yn cynnwys yr Eisteddfod, Corau, talwrn y Beirdd, Papurau Bro, Cyrddau Cystadleuol, Merched y Wawr ag ati. Pa sir arall fedrai lenwi Theatr Felinfach ddwy noson ar gyfer perfformiad o basiant Stephen Morgan ar Dafydd Jones Bwlchllan?

Eifion Davies ddiolchodd i'n siaradwr am gychwyn y tymor mor fendigedig. Cyfeiriodd hefyd yn ôl ei brofiad, mae'r pethau lleol oedd mwyaf poblogaidd yn y Theatr yn Felinfach yn hytrach na digwyddiadau cenedlaethol.

Penderfynodd y Cylch gefnogi cais Ieuan Roberts sydd ar fin mynd i drecio gyda Iolo Williams a'r criw yng ngodrau'r Andes er mwyn codi arian i MENCAP Cymru. Gan fod helpu achosion da yn rhan allweddol o waith y cylch Cinio, penderfynwyd ar swm anrhydeddus o £200. Y mis nesaf, Heledd ap Gwynfor fydd yn ein tywys i wlad China. Cofiwch os na fedrwch fod yn bresennol i roi gwybod i Rhys Bebb Jones, ffôn 423466, mae methu gwneud hyn yn golygu colled ariannol sylweddol i'r Cylch Cinio – arian a fedrir ei roi at achosion da.

Aelwyd yr Urdd

Ar nos Fawrth 16eg o Hydref, daeth dros 40 ohonom i Neuadd Ysgol Ffynnonbedr i chwarae Bingo. Cawsom lawer o sbri with chwilio am y rhifau! Dyma enwau enillwyr lwcus a gafodd siocled: Izzy, Ruth,

Llion, Jac, Lewis a Lisa. Diolch i Joy am alw'r rhifau ac i Mareth a Janet am gadw trefn. Fe fydd y cyfarfod nesaf ar y 6ed o Dachwedd pan fyddwn yn coginio gyda Sian. Manylion Panto Felinfach: Bws yn mynd o'r Rookery am 7.20 y.h. Tocynnau - £4.50 i blant, £6.50 i oedolion. Os oes diddordeb, dewch â'r arian i un o'r swyddogion erbyn 15fed o Dachwedd.

Diolch

Dymuna Angharad Morgan-Isaac, Garej Pontfaen ddiolch o waelod calon i bawb am y llu cardiau, arian, anrhegion a dymunidau gorau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

Sioe Amaethyddol
Llanbedr Pont Steffan

Cynhelir
Cinio Blynyddol y Sioe
Nos Wener, Tachwedd 16eg
yng Ngwesty'r Llew Du, Llambedd
Enwau cyn gynted â phosibl i
Aeron Hughes 01570 422654 neu
Gwen Davies 01570 481152


Noddfa

Braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i Noddfa i oedfa ddiolchgarwch yng ngofal yr ysgol Sul. Mewn pennill a chan diolchwyr i Dduw am ei holl fendithion a chofwyd hefyd am y rhai llai ffodus na ni.

Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Beca a chyhoeddwyd yr emynau gan Tomos. Osian, Aled a Teon. Offrymwyd gweddïau gan Sian a Steffan a'r llefarwyr oedd Aron, Dewi, Cerys, Alwena, Helen a Llinos. Cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan eitemau o safon uchel yn cynnwys unawdau gan Hannah a Lowri, adroddiad gan Rhys, cân gan Aron, Dewi a Steffan, a chan ynghyd â datganiad hyfryd o'r emyn 'Bronwen' gan Alwena, Helen a Sian. Mwynhawyd cyfraniad y plant lleiaf yn fawr iawn gyda phob un ohonynt wrth eu bodd yn canu ac yn rhoi o'u gorau.

Cafwyd diwedd glo ardderchog wrth i bawb uno i ganu'r emyn cyfoes "Miwsig yn y Galon" a Helen, Alwena a Llinos yn canu'r penillion.


Talodd y Gweinidog Jill Tomos deyrnged uchel i'r plant a'r bobl ifanc am wneud eu gwaith mor raenus a diolchodd i'r rhieni am eu cefnogaeth ac yn olaf ond nid y lleiaf i Janet am ei gwaith amhrisiadwy gyda'r ieuencid. Datganodd ddiolch haeddiannol hefyd i Owen am ei wasanaeth wrth yr organ ac i Janet, Alwena a Verina am eu cyfraniadau hwythau ar yr allweddellau. Daeth y plant â ffrwythau i'w cyflwyno i Henoed yr eglwys a deiliad Llŷs Pedr. Wrth adael yr oedfa tystiai pawb eu bod wedi derbyn bendith wrth gyd addoli gyda'r ieuencid mewn oedfa fendigedig. Yn ddiweddar bu aelodau'r Ysgol Sul yn brysyr iawn o dan gyfarwyddyd Llinos yn creu cardiau Nadolig sydd yn werth eu gweld. Mae 23 wedi bod ynghlwm â'r prosiect hwn gyda'r plant iau yn cynllunio'r cardiau a'r bobl ifanc yn cyfansoddi penillion i'w cynnwys y tu mewn. Mae'r cardiau ar werth gan Llinos a'r elw yn mynd at waith yr Ysgol Sul. Bydd siâr haeddiannol i bawb yn ystod yr wythnosau sy'n dod. Bydd ysgol Sul nesaf am 10.30 o'r gloch ar 11 Tachwedd.



Aelodau Ysgol Sul Noddfa yn arddangos y cardiau Nadolig a grewyd ganddynt. Mae Michael, Daniel a Scott yn absennol o'r llun.

Merched Y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch

Croesawodd ein llywydd Eryl bawb i gyfarfod Mis Hydref o Ferched Y Wawr yn Festri Shiloh. Canwyd cân y mudiad gyda Janet yn cyfeilio. Fe estynnodd Eryl ein dymuniadau gorau i Glesni sydd newydd dderbyn llawdriniaeth



Tim Bowls Llambedd

Llanbedr Pont Steffan

yn Ysbyty Llanelli. Cyfeiriodd hefyd at farwolaeth sydyn Eirlys Perys Davies o Dudraeth a oedd wedi bod yn gyn-lywydd y mudiad ymhlith swyddi eraill blaenllaw ar lefel Cenedlaethol a Rhanbarthol; penderfynwyd danfon cerdyn o gydymdeimlad i'r teulu. Ar nodyn mwy hapus, llongyfarchodd Eryl aelodau o'r gangen a oedd wedi bod yn dathlu yn ddiweddar sef Avril a Eric ar eu Priodas Aur, Janet a Derek a Elma a Goronwy ar eu Priodas Rhuddem gyda chofion arbennig at Goronowy sydd heb fwynhau'r iechyd gorau ers peth amser; ac hefyd i Eric gŵr Mair sydd yn disgwyl mynd am lawdriniaeth ychwanegol yn fuan. Llongyfarchodd Llinos Jones ar ddod yn famgu unwaith eto. Rhoddodd Verina grynodedd byr o Benwythnos Preswyl Merched Y Wawr ym Mangor mis Medi lle cafwyd llawer o weithgareddau diddorol a chafwyd amser pleserus iawn.

Yn dilyn Pwyllgor Rhanbarth atgoffwyd yr aelodau o ddyddiadau i'w cofio sef Noson anffurfiol ar y cyd yng Nghlwb Golff Penrhos ar 14eg o Dachwedd, Cwrs Hwyl ar 23ain Dachwedd a'r Ffair Aeaf ar y 26ain a 27ain o Dachwedd.

Diolchwyd i Janet a Llinos am ymweld â Hafan Deg y mis diwethaf a chytunodd Mary a Rhiannon i ymweld ym Mis Hydref. Trafodwyd y fantolen a derbynniwyd ei bod mewn trefn. Ennillwyd y raffl gan Gwen.

Bu aelodau o'r gangen yn ymweld â changen Llwynpiod am noson o hwyl a gwledda a chafwyd amser da yn cymdeithasu a thwmpatha.

Croesawodd ein llywydd ein gwestai am y noson sef Carys Mai, merch ddawnus a hynod o brysur o ardal Lledrod sydd newydd ddechrau ar swydd newydd fel Ymgynghorydd Iaith yng Ngholeg Ceredigion. Bu yn dangos sleidiau am ei thaith hi a'i ffrind Marek o Awstralia, Seland Newydd a'r Unol Daliaethau'r Amerig. Cafwyd orig ddiddorol iawn gyda disgrifiadau byw o'r daith. Gofynnwyd iddi feiriniadu ein cystadleuaeth misol sef "Lluniau Doniol" a'r ennillwyr oedd – 1af Glenys Morris, Eryl yn 2il a Mair Richards yn 3ydd.

Diolchwyd iddi gan Noleen a diolchwyd i Huw Jenkins Prifathro Ysgol Ffynnonbedr am fenthgy offer ar gyfer y sleidiau. Cafwyd cwpaned o de a bisgedi wedi eu paratoi gan Pat, Eiry, Hazel a Mair.

Y tro nesaf byddwn yn ymweld â Salon Dere i Dorri am noson o Arddangos Harddwch a Trin Gwallt gyda chaws a gwin yn cael eu gweini am dâl o £3.50 yr un ac edrychwn ymlaen at hynny.

Cymdeithas Hanes Llanbedr

Gwelwyd nifer o wynebnewydd yn ymuno gyda'r aelodau yng nghyfarfod Mis Hydref, a chafwyd noson ddiddorol iawn yn gwando ar Margaret Bide, Melin Glanffrwdd, Cellan. Wrth ei chroesawu, cyfeiriodd Selwyn Walters, y Cadeirydd at y ffaith ei bod hi wedi bod yn siarad â'r Gymdeithas eisioes, am ei gwaith yn adnewyddu'r hen felin wllan yng Nglanffrwdd, a manteisiodd rhai o'r aelodau yn hwyrach ar y cyfle i ymweld â'r lle.

'Brethynnau Cymreig' oedd ei phwnc y tro yma – hwn yw ei diddordeb mawr ers hanner canrif. Dywedodd ei bod yn dal i deimlo'r un cynnwrf heddiw a wnaeth 50 mlynedd yn ôl wrth ddod ar draws brethyn 'newydd' iddi hi.

Cyfeiriodd at gyfnod y mynachlogydd, fel y ceisiodd y mynachod wella cyflwr y defaid, - a hynny'n gwella ansawdd eu gwlan. Syndod oedd clywed bod yna 10 gwahanol gradd o wllan o fewn un cnu, ac fel y byddai'n cymeryd 6 mlynedd o brentisiaeth i hyfforddi gŵr ifanc i raddio'r gwahanol rannau – celfyddyd sydd bron iawn wedi mynd i ddifancoll erbyn heddiw.

Disgrifiodd fel y byddai gwahanol mathau o frethyn yn cael eu cynhyrchu, - gwehyddu'r gwlan, ei olchi yn y Pandy, ac yna'i roi dan bwysau i'w bresio. Brethyn bras garw yn gynnwys, ond yna wrth ddefnyddio llysiau'r pannwr (teasles) i gribo'r brethyn, byddai'r ansawdd yn meddalu. Daeth y brethyn 'cotwm' yma yn boblogaidd iawn, a hwn a welwyd fwyaf o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg hyd at y ddeunawfed ganrif. Roedd y mwyafrif o'r brethyn a allforiwyd o Brydain yn frethyn Cymreig.

Diwydiant cartref oedd gwehyddu hyd at ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, - y tyddynwyr yn creu'r brethyn ar wŷdd llaw. Yna daeth y newid mawr ym myd diwydiant, a'r melinau gwlan mawr yn codi, - ond nid yng Nghymru. Cymharol fychan oedd y melinau gwlan yma. Dechreuodd y diwydiant ddirywio tua 1920, ac erbyn 1960, ychydig iawn o'r melinau gwlan a welwyd yn goroesi.

Drwy gyfrwng lluniau, gwelwyd brethynnau yn cael eu creu ar y ffrâm, - brethyn plaen gan fwyaf, hwnnw'n cael ei liwio'n rhyfeddol. Mae'n debyg fod yna 250 o wahanol lliw coch, - heb sôn am y lliwiau gwyrdd, melyn a glas hyfryd. Gwelwyd lluniau o waith artistiaid Eidalaidd ac ati, a'r gwisgoedd yn dangos y lliwiau hyn i'r dim, - a thaerau Margaret Bide mae o Gymru y byddai llawer o'r brethynnau a welwyd yn y lluniau hyn wedi dod. Credai'n gryf hefyd bod ansawdd y gwlan a gweidd â llaw yn llawer iawn gwell na'r hyn a ddaeth o'r



melinau mawr.

Daeth â nifer o samplau o frethyn gyda hi, blancedi, ac ambell i bais er mwyn i'r aelodau cael eu gweld a theimlo'u hansawdd.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Margaret Bide am noson ddiddorol iawn gan y cadeirydd, a dywedodd nad oes rhyfedd ei bod yn cael ei chydabod fel awdurdod yn y maes hwn.

Bydd y cyfarfod nesa nos Fawrth, Tachwedd 20fed, am 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan fydd Mr. Bernard Jones (Siop B J Jones) yn rhannu ei straeon ef am Llanbedr gyda ni. Croeso cynnes i bawb.

Taith feicio a cherdded noddedig Ford Gron Llanbedr Pont Steffan

gan Rhys Bebb Jones
Bwriad y daith oedd codi arian er budd Cymdeithas Clefyd Motor Neurone ac elusennau lleol gan feicio o Lanbed i Langrannog a cherdded y diwrnod canlynol o Langrannog i Aberaeron. 'Roedd cyfanswm y daith yn 40 milltir a hynny'n arwyddocaol oherwydd bod Ford Gron Llanbedr yn dathlu'r rhuddem eleni.

Gwariodd bore Sadwrn 15fed Medi yn heulog braf, a phawb ohonom wedi ymgynnull ger Ysgol Uwchradd Llanbedr gyda'n bagiau a'r beics holl bwysig. Cychwynasom am 9.15 i gyfeiriad Maestir gyda'r bwriad i ddilyn lonydd gwledig a chadw'n glir o'r priffyrdd. Y mae'n rhaid ei bod yn olygfa rhyfeddol wrth i ni ymlwybro i fyny allt Maestir – wyth ohonom yn chwysu a'r nawfed yn ein dilyn yn hamddenol braf mewn 4x4 rhag ofn y byddem angen cymorth!

Aethom draw i gyrion Llanwnnen a throi ger Capel y Groes i gyfeiriad Gorsgoch. Erbyn cyrraedd Gorsgoch 'roedd y botel ddŵr eisioes yn hanner gwag! Ymlaen â ni fel neidr i Dalgarreg a'r golygfeydd i bob cyfeiriad yn odidog, a'r wybren las di-gwmwl yn arwydd i ni ddewis diwrnod da. Cyrraedd Talgarreg

erbyn 10.30 a phawb yn ymgynnull ger y dafarn am lymaid o ddŵr ac i dynnu lluniau ar gyfer yr albwm! 'Roedd y coesau'n dechrau blino wrth i ni deithio'n gynt na'r disgwyl – yr oedd rhai wedi 'cynllunio' bod angen i ni gyrraedd Llangrannog i weld gêm Cymru ac Awstralia am 2.00 o'r gloch!!

Fe wnaethom groesi'r A486 ger Porth Bach (i'r de o'r Porth Mawr, neu Synod Inn i'r rhan fwyaf o bobl) a'r dewis eang o gêrs yn gwneud y daith i fyny'r ellydd yn tipyn haws. Daethom i lawr ar garlam i Plwmp a theithio ar hyd yr A487 i Bentregat. Y mae'n ffordd brysur ac roedd y cerbydau yn gwibio heibio ni'n ddi-drugaredd – yr oeddwn yn gweld eisiau'r lonydd gwledig distaw! Dyma gyrraedd Pentregat a throi i'r dde i gyfeiriad Llangrannog. Datblygodd tipyn o ras rhyngom wrth i ni fynd yn gynt ac yn gynt i lawr yr allt, ac un tro bron a'm twyllo (diolch byth am frêcs!) Cyrraedd Llangrannog a'i fae hyfryd a chysgodol – y chwys yn diferu, a dim syndod, gan i ni gyrraedd pen y daith cyn hanner dydd! Yr oeddem wedi trefnu i aros dros nos yn y Pentre Arms, felly dyma ddadlwytho ein bagiau o gefn y 4x4 a llwytho'r beics yn eu lle i'w dychwelyd i Lanbed. Aeth dau o'r criw yn ôl â'r beics i Lanbed a dychwelyd yn ddiweddarach mewn cerbyd arall ar gyfer y daith gerdded drannoeth. Yr oedd digon o amser i ymdrochi – y môr yn rhyfeddol o gynnes - a chael cinio cyn mwynhau y gemau rygbi o flaen y sgrin fawr. Trueni nad oedd Cymru yn medru ennill ar ddiwrnod oedd fel arall yn berffaith!

Aeth nos Sadwrn yn fore Sul cyn i ni noswyllo, a phawb wedi mwynhau'r gemau rygbi a'r gemau diddiwedd o pŵl! Yr oedd her arall yn ein haros bore Sul – nid yn unig y daith gerdded i Aberaeron ond hefyd her perchennog y Pentre Arms! Yr oedd wedi ein herio fel criw i fynd i ymdrochi yn oerni dyfroedd Bae Ceredigion am 8.30 y bore, a

phe byddem yn llwyddo, byddai'n cyfrannu £100 tuag ein taith nodeddig. 'Roedd pawb yn y môr yn brydol am 8.30 a'r gawod boeth a'r brecwast blasus yn eli i'r galon a'r stumog wedi'r fath her! Yr oedd yn anodd ffarwelio â Llangrannog, yn arbennig a ninnau'n sylweddoli bod taith faith o'n blaenau.

Ein bwriad oedd dilyn llwybr yr arfordir i Aberaeron Mae'n syndod nad oes llwybr eto ar hyd yr arfordir rhwng Llangrannog a Chwmtedu. Bu'n rhaid cerdded ar darnac caled o Langrannog i Gwmtedu, a braf fu gweld harddwch Cwmtedu a chyrraedd yr arfordir. Yr oedd Ynys Lochlyn ger Llangrannog yn edrych yn hudolus a'r tywydd yn berffaith. Yr oedd y llwybr i Cei Newydd bron yn anial a chyrraedd yno'n dipyn o sioc – yr holl bobl a'u ceir, y llygredd a'r sŵn! Diolch byth nad oeddent yn amharu ar lonyddwch y bae sy'n gartref i nifer o ddolffiniad a llamhidyddion prin. Tra'n syllu ar brydferthwch y bae, gwelais rhywbeth yn neidio'n sydyn uwchben y tonau. Ymlafnais am yr ysbeinddrych, a dyna ble 'roedd dolffin yn neidio'n eofn heb falio dim am neb. Bendigedig!

Rhaid fu dod â'r seibiant i ben ac ail ddechrau'r daith ar hyd y bae i gyfeiriad Cei Bach. Buom yn cerdded ar lan y môr am ychydig, ac nid pawb a lwyddodd i gadw eu traed yn sych wrth ddringo dros y creigiau. Gadawsom y traeth yng Nghei Bach a cherdded trwy'r caeau a sawl coedwig i gyfeiriad Aberaeron. Yr oedd y llwybr yn mynd i fyny ac i lawr, tebyg i atyniad ffair, ac yn serth mewn manau. Cawsom olygfeydd hyfryd yn ôl i gyfeiriad Cei Newydd ond erbyn tua 3 o'r gloch yr oeddent yn dechrau cilio wrth i'r tywydd newid a'r glaw gafodd ei ddarogan ddod tuag atom. Yr oeddem yn benderfynol o gyrraedd Aberaeron cyn y glaw a dyma fras gamu gan obeithio dianc rhagddo. Cyrhaeddodd Aberaeron tua 4.30 wedi blino'n lân ac 'roedd gweld yr harbwr fel gweld gwerddon ('oasis') mewn anialwch! Tra'n tynnu llun ger yr harbwr i gofnodi diwedd y daith daeth y glaw i'n gwlychu'n ddiidrugaredd. Rhedodd pawb am gysgod, ond nid oedd ots am y glaw – yr oeddem wedi gorffen y daith yn ddiogel! Trefnwyd bod ceir yn ein cyfarfod yn Aberaeron i'n hebrwng yn ôl i Lanbed, ac roeddem yn falch o gyrraedd gartref wedi penwythnos cyffrous a chofiadwy. Llwyddom i gyflawni'r her o gael taith anhygoel i godi arian ac amser da. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion hael tuag at achosion teilwng iawn.

Pa ffordd i Aberaeron? Rob, John, Gary, Aled, Kevin, Rhys a Wim ar y daith gerdded. Diolch i Tarquin am dynnu'r llun.

Clwb Bowlio Llambled
Mae'n bleser nodi llwyddiant

ysgubol a ddaeth i Glwb Bowlio Llambled yn ddiweddar.

Gorffennodd tîm cyntaf y Dynion yn ail yn yr Adran Gyntaf a'r ail dîm yng nghanol tabl yr ail adran. Gorffennodd tîm y Merched yn drydydd yng nghyngair Llan. I goroni y tymor enillodd Llambled y gystadleuaeth y "Cambrian News Rose Bowl" gan guro Llandrindod yn y rownd derfynol yn Aberyswyth yn ddiweddar.

Dydd Llun, Gŵyl y Banc, bu naw cynrychiolydd o Lambled yn y Gemau gynderfynol Cymru yng Ngharno, gan gynnwys Melanie Thomas yn y senglau tan ddeunaw, ac aeth Anwen Butten ymlaen i'r rownd derfynol y senglau agored. Hefyd aeth Anwen Butten, Anita Williams a Carolyn James ymlaen yn y gystadleuaeth driphlyg. Cafwydd llwyddiant hefyd gyda'r rinciau dwbl a enillodd bencampwriaeth Cymru gan gynnwys Anwen Butten, Maureen Evans, Carolyn James, Morfudd Rees, Dilwen Roderick, Dilwen a Rhian Thomas, ac Anita Williams, gan guro Gerddi Soffia Caerdydd.

Y penwythnos canlynol cafwyd rhagor o lwyddiant ym mhencampwriaeth Ceredigion. Enillodd Anwen ddwy gystadleuaeth sengl terfynol; Cerys Watkin yn fuddugol yn y senglau hŷn, Anwen ac Anita yn y gystadleuaeth pâr, ac Anwen, Cerys a Morfydd yn fuddugol yn y gystadleuaeth driphlyg. Yn ogystal â hyn mae Anwen wedi ei dewis yn aelod o garfan fowlio Cymru, ac enillodd fedal arian yn y gemau Atlantic yn yr Alban yn ystod yr Haf.

Llongyfarchiadau mawr iddynt oll ac edrychwn ymlaen at ddechrau'r



Cydymdeimlad
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs Sulwen Thomas, Llaindeg, Cellan wedi cyfnod o lesgedd. Estynnwn gydymdeimlad dwys â Rob, Rhodri, Llŷr a'r teulu.

Cymanfa
Cafwyd Cymanfa Ganu lwyddiannus yn Eglwys Cellan nos Sul yr 21ain o Hydref.

Pen-blwydd
Pen-blwydd hapus arbennig i Lena Daniel yn 50 oed! Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.

Diolch
Dymuna Ken a Mary, Glasfryn i bawb am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiwedddar.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan gwmni yn CLONC, dywedwch wrthynt ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Cwrtnewydd

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr â Mrs Jean Griffiths a'r teulu, Fronddu ar farwolaeth ei hewythr, Mr Victor Jenkins, Peronn, Llanybydder.

Arwerthiant Seion
Cynhelir Arwerthiant Seion yn ôl yr arfer ar brynghawn Sadwrn, Tachwedd 24ain am 3y.p. Croeso cynnes i bawb ac agorir yr arwerthiant eleni gan Mrs Sally Evans, Alltwn, Llandysul.

Capel y Bryn
Bydd Capel y Bryn yn dathlu 125 oed ar ddydd Sul, 4ydd o Dachwedd. Bydd oedfa yn y capel am 1:30y. p. gyda the i dilyn yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd.

Ysgol Cwrtnewydd Clwb Ffrindiau Mis Hydref 2007
£10.00 Sion a Dafydd Evans, Gwel-y-Bryn, Heol y Gogledd, Llambled
£5.00 Ella Davies, Waun, Rhydowen, Llandysul
£ 2.50 Vanessa Bowen, Penwac, Llandysul
£ 2.50 Nia Morgans, Glwydwern, Llanwnnen

Er bod Cymru wedi methu yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd does dim stopio plant Cwrtnewydd. Dyma Rhodri yn barod i sgorio cais yn y gystadleuaeth rygbi a gynhaliwyd ar ddechrau mis Hydref yn Llanbedr Pont Steffan. Cafwyd llawer o hwyl a dysgwyd nifer o sgiliau newydd. Ar ddiwedd Mis Medi bûm fel ysgol gyfan ar daith gerdded er mwyn casglu arian ar gyfer apêl Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010. Casglwyd swm parchus iawn, diolch i bawb am eu cefnogaeth. Hoffwn fel ysgol ddiolch i holl aelodau cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am eu gwaith caled. Maent wedi bod wrthi yn chwilio am grantiau. Hyd yn hyn maent wedi codi dros £1000 ar gyfer prynu tai bach twt a phaentio'r ysgol. Mae'r ysgol yn brysur wrthi yn casglu tocynnau Tesco er mwyn archebu offer chwaraeon.

Cydnabyddir cefnogaeth

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

i'r cyhoeddiad hwn

Llinell Gyswllt:
0845 6076070
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.mentrau-iaith.com

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Annwyl Bapur Bro
Ysgrifennaf atoch er mwyn hysbysu'ch darllenwyr am ddigwyddiad newydd cyffrous a fydd yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn y Bont, Pontrhydfendigaid ym mis Rhagfyr. Os nad ydych yn siŵr beth y gallwch ei brynu'n anrheg Nadolig i'ch anwyliad eleni- peidiwch â phoeni! Ydy meddwl am wynebu rhialtwch siopa Nadolig yn y dinasoedd mawr yn codi arswyd amoch? - peidiwch â phoeni! Ydych chi'n awyddus i gefnogi cynhyrchwyr a busnesau lleol wrth wneud eich siopa Nadolig, ond heb fod yn siŵr lle y gallwch brynu'r pethau hynny?- peidiwch â phoeni! Ar ddydd Sul a dydd Llun yr 2il a 3ydd o Ragfyr eleni fe fydd Marchnad Nadolig yn cael ei chynnal y tu fewn i'r Pafiliwn ym Mhontrhydfendigaid. Bydd yma ddegau o stondinau gan fusnesau ac unigolion medrus lleol, yn darparu'r gorau o gynnyrch lleol a thu hwnt. Byddwn yn darparu castell bownsio a gweithgareddau i gadw'r plant yn brysur, felly gwnewch ddiwmod teuluol ohoni. Bydd y cyfan o dan yr un to wrth gwrs, felly bydd dim angen i chi boeni am y tywydd ychwaith.

Os ydych chi'n fusnes neu'n grefftwr sy'n darparu nwyddau a fyddai'n addas i'w gwerthu fel anrhegion Nadolig, neu'n adnabod rhywun a fyddai â diddordeb cael stondin yn y Farchnad, cysylltwch â Llŷr neu Lisa yn y Pafiliwn ar 01974 831 635. Siopwch yn lleol y Nadolig hwn, bydd y cyfan o fewn pafiliwn!

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Anrheg Delfrydol i'r Nadolig Nofel Twm a'r Ôl Troed
gan Sian Lewis
£4.99 Gwasg Gomer
Cynhesu byd-eang - pwnc sy'n gyson yn y newyddion a gyda phlant heddiw yn fwy ymwybodol nag erioed o'r peryglon i fyd natur, nid yw'n syndod bod yr awdures Siân Lewis o Lanilar wedi cael ei sbarduno gan y pwnc hwn wrth fynd ati i lunio ei nofel ddiweddaraf i blant, Twm a'r Ôl Troed a gyhoeddir gan Wasg Gomer.

Dilyniant yw Twm a'r Ôl Troed i'r llyfr Twm yn y Canol am helyntion digri Twm, 11 oed, a'i deulu. Mae ganddo chwaer hŷn, Miriam, a brawd iau, Morgan, a felly Twm yn y canol. Gyda mam yn filfeddyg a thad yn gyfrifydd, mae'r teulu hwn yn brysur tu hwnt a bywyd fel petai'n wallgof ar adegau! Beth yw'r rheswm fod hipopotamws a haid o eliffantod yn Nhrewerydd? A fydd Twm yn medru gwneud synnwyr o'r cyfan? Nid cread dychymyg yr awdures yn llwyr yw'r rhan hwn o'r llyfr chwaith oherwydd fe gafodd Siân Lewis y syniadau o ddigwyddiadau go iawn.

Llanwnnen

Ysgol Llanwnnen

Ar ddechrau'r tymor dechreuodd Dylan Thomas gennym yn yr ysgol hefyd yn nosbarth Mrs Llwyd.

Bu Tim Pêl-droed yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd i ysgolion o dan 50 o blant yng Nghanolfan Hamdden Llambod. Fe wnaeth y merched chwarae yn arbennig o dda yn erbyn llawer iawn o fechgyn. Daeth y tîm yn 3ydd.

Ar ddechrau'r mis teithiodd Mr Evans a Miss Jones, Ysgol Cwrtnewydd am dridiau i Awstria fel ran o Gynllun Gwreiddiau ac Adennydd. Bu'r profiad yn un gwerthfawr iawn.

Bu Mrs Ray Thomas, Berllan i fewn yn nosbarth y babanod yn sôn am yr hen ffordd o olchi. Cafodd pawb eu syfrdanu i weld sut oeddent yn cael bath slawer dydd!!

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr ysgol yn Eglwys St Lucia, Llanwnnen ar nos Iau, Hydref 11eg. Bu pob plentyn yn yr ysgol yn cymryd rhan. Cafwyd neges gan y Canon Aled Williams hefyd ar y diwedd. Gwnaed casgliad o £95 sydd yn mynd i Apêl Iestyn, i Ambiwllans Awyr Cymru bachgen o Dalgarneg a gafodd ddamwain gas ar ei feic adeg y gwanwyn.

Bu'r ysgol yn paratoi bocsys Nadolig wedi eu pacio ac yn ychwanegol eleni rhoddwyd nifer o fagiâu o hen ddillad erbyn mynd allan i Romania. Daeth Mrs Linda Burgess, Temple Bar atom i'w casglu.

Bu dosbarth Mr Evans i fyny yn Ysgol Gyfun Llambod yn gweld perfformiad 'High School Musical' ar brynawn ddydd Gwener, 19eg o Hydref. Braf oedd gweld nifer o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn y sioe.

Yn ystod yr hanner tymor yma rydym wedi ail-ddechrau ar Gynllun 3 Ysgol, ond erbyn hyn mae Mr Ward yng Nghwrtnewydd yn dysgu Technoleg Gwybodaeth, Mr Davies yng Nghribyn yn dysgu Hanes a Mr Evans Llanwnnen yn dysgu Daearyddiaeth.

Cyn gwyliau'r haf aeth Cyngor Ysgol Llanwnnen i Swyddfa'r Cyngor Sir ym Mhenmorfa, Aberaeron i gael cyfweiliad gan Swyddogion y Cyngor Sir a Ysgolion Iach Ceredigion. Sicrhaodd y Sir grant i'r ysgol o £2250 i gael llwybr ffitrwydd. Diolch hefyd i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am roi swm sylweddol at y grant yma er mwyn cael llwybr o'r safon uchel. Rydym hefyd wedi cael gêmâu wal tu allan er mwyn i'r plant i allu chwarae gêmâu tu allan. Mae'r llwybr ffitrwydd wedi ei osod ar gae'r ysgol.

Bu Laura Thomas a Lorna Davies o Ysgol Gyfun Llambod am wythnos brofiad gwaith gennym yn ystod y

mis.

Braf yw nodi bod POB disgybl yn Ysgol Llanwnnen wedi ymaelodi â'r Urdd ar ddechrau mis Medi ac fe gawsom galwad ffôn cyn y gwyliau mae YSGOL LLANWNNEN oedd yr ysgol gyntaf oedd wedi ymaelodi â'r Urdd am y flwyddyn 2007-08. Da iawn chi blant am ymaelodi yn gynnar. Fe fu'r llun yma hefyd yn Y Cymro yr wythnos ddiwethaf sef rai o blant yr ysgol ar Fynydd Llanllwni yn Nhaith Gerdded y Cylch yn ysod diwedd mis Medi.

Bydd Pwllgor Canmlwyddiant yr ysgol yn cwdd ar nos Lun, Ionawr 14eg 2008 yn y ysgol am 7y.h. Croeso cynnes i bawb. Bydd manylion pellach yn dod allan yn ystod y misoedd nesaf. Cadwch eich llygaid ar agor. Os oes gennych hen luniau neu hanesion am yr ysgol cofich gysylltu â'r ysgol yn fuan iawn 480203.

Diolch

Dymuna John Jones, Penpomren ddiolch am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn ac i bawb fu'n ymweld ag ef ar ôl dod adref wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Manon Richards, Lowtre aelod o G.F.F.I. Llanwenog ar ennill Cwpan am y Siaradwr gorau o dan 26 oed yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.F.F.I. Ceredigion yn ddiweddar.

Hefyd llongyfarchwn Haydn Richards, Lowtre ar gael ei ethol yn Is-Lywydd C.F.F.I. Ceredigion. Dymuniadau gorau i chwi gyda'r swydd yma.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Eleri a Glyn Hammond a'r teulu yn Llainedlyn ar farwolaeth ei chwaer sef Sulwen Thomas, Llainedeg, Cellan.

Penblwyddi Arbennig

Penblwydd hapus i Mrs Hilda Bickle, Tegfan ar ddathlu ei phenblwydd yn 70 oed, Lynwen Jenkins, Llysfaen Uchaf ar ddathlu ei phenblwydd yn 40 oed yn ystod canol mis Hydref ac i Iwan Jenkins, Gerallt a fydd yn dathlu ei 40 oed ar ddechrau mis Tachwedd. Iechyd da i chwi eich tri!!

Sefydliad y Merched

Cychwynodd tymor yr Hydref gyda ymweliad â Gwinllan Ffynnon Las yn Aberaeron. Cawsom ein tywys o amgylch y winllan gan Martin Lewis sydd wedi bod yn tyfu gwinwydd yn Aberaeron ers ugain mlynedd. Gan ei bod yn ddechrau mis Medi roedd y grawnwin yn barod i'w casglu ond oherwydd yr Haf gwlyb, bach iawn oedd y ffrwyth eleni. Cawsom dipyn o hwyl wrth brofi'r gwahanol winoedd ac roedd pawb mewn hwyliau da yn gadael a mynd am bryd o fwyd yn y



Royal Oak!! Diolchodd Mrs Gwen Davies i Mr Lewis, Ffynnon Las ac i Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am drefnu'r noson.

Cynhaliwyd Pwllgor Blynyddol ar nos Lun, Hydref 1af gyda Mrs Brenda Wright yng ngofal y trefniadau. Ail-etholwyd y Llywydd Mrs Gwen Davies, Trysorydd Mrs Alice Davies a'r Ysgrifenyddes Mrs Ann Hughes. Etholwyd Mrs Joyce Flaxman a Mrs Avril Jones yn Is-lywyddion a Mrs Ceinwen Roach a Mrs Mary Davies yn ysgrifenyddion Rhaglen. Mrs Glenys Jones a Mrs Avarina Lewis a fydd yn gyfrifol am y te a'r raffl.

Diolchodd Mrs Gwen Davies i'r swyddogion a'r aelodau am eu ffyddlondeb a'u cydweithrediad yn ystod y flwyddyn. Enillwyd y gystadleuaeth gan Mrs Gwen Davies.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun, y 5ed o fis Tachwedd yng Ngwesty'r Grannell am 7:30y.h. Y gŵr gwadd fydd Andrew Jones, Cwmgwyn, Pentrebach. Croeso cynnes i aelodau newydd ddod i'r cyfarfod yma.

Pwylgor Lles Llanwnnen

Bydd y Pwylgor Lles yn cyfarfod ym mis Tachwedd i drefnu dosbarthu anrheg nadolig i oedolion y pentref. Felly os ydych chi wedi dathlu eich 70 oed yn ystod y flwyddyn diwethaf neu yn gwybod am rywun sydd wedi dathlu, cysylltwch ag Ann Hughes ar 01570 422654 neu â Gomer Lewis ar 480252. Hoffai'r pwylgor ddymuno Cyfarchion y Tymor i bawb.

Noson i Anrhyddedu
ELIN JONES A.C.
Gweinodog Amaeth a Chefn
Gwlad y Cynulliad
yng Nghwesty'r Grannell,
Llanwnnen
am 7:00y.h.

Nos Wener, Tachwedd 23ain
Adloniant – Plant yr ysgol,
Beirdd y Sir, Sgetsys A.B.C.
a Dylan Iorwerth
£10.00 i gynnwys bwffe
Tocynnau ar gael – 01570 481240

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Mae CLONC ar werth yn y siopau canlynol:

Caxton, Llambod
Compton, Llanybydder
Eryl Jones, Llambod
Garej Checkpoint, Harford
Glennydd, Cwrtnewydd
Gwasg Gomer, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambod
Lomax, Llambod
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Vanilla Bay, Aberaeron
Siop Talgarreg
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Cwmann
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tu-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07790429378

Cludfwyd Indiaidd NEHAR

newydd agor yn Llambod



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod
☎ 01570 422893 / 422175

Drefach a Llanwenog



Cynghorydd Alun James, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanwenog yn cyflwyno anrheg i Mrs Ann Thomas, fel arwydd o gydnabyddiaeth a diolch am ei gwasanaeth fel clerc i'r cyngor. Mae Mrs Thomas yn ymddeol wedi cyfnod o chwe mlynedd a deugain fel clerc.

Sefydlwyd Cyngor Plwyf Llanwenog yn 1894 a naw mlynedd yn ddiweddarach, yn 1903 apwyntiwyd y diweddar Rhys Davies yn glerc. Bu yn y swydd tan 1961 pan y cymerodd ei ferch, Ann at y gwaith. Rhyngddynt i' ll dau maent wedi rhoddi cant a phedair mlynedd o wasanaeth i Gyngor Cymuned Llanwenog. Hefyd yn y llun mae'r cynghorwyr presennol.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Peter Howells, Ty Cam a Helen Davies, Greenacres, Llanllwni ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chwi eich dau i'r dyfodol.

Wyres newydd

Llongyfarchiadau i Gareth a Doreen Davies, Dôl-Gader ar ddod yn ddatcu a mamgu unwaith eto. Merch fach Miran Wyn i Meinir a Wyn yn Llandysul. Hefyd i Nancy Evans, Hazeldene ar ddod yn hen-famgu i'r uchod yn ogystal.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Nans Evans, Dôl Hardd a'r teulu oll ym marwolaeth ei hewythr Ieuan Jenkins, Peronn, Llanybydder

Gwellhad Buan

Treuliodd Mrs Moira Bone, Ochr Nant ychydig amser yn ysbyty Glangwili yn ystod y mis. Gobeithio erbyn hyn eich bod dipyn yn well.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Johnny ac Ann Howells, Ty Cam ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ystod y mis. Ymlaen yn awr i'r Aur!

Ysgol Llanwenog Gwellhad Buan

Braf yw medru cofnodi fod ein Prifathrawes, Mrs. Siân Davies yn gwella yn dda ar ôl y driniaeth lawfeddygol a gafodd y mis diwethaf. Danfonwn ein cyfarchion cynhesaf iddi ac edrychwn ymlaen i'w chroesawu yn ôl cyn diwedd y tymor.

Erbyn hyn mae'r ysgol yn dod 'nôl i 'normal' ar ôl cyffro'r paratoadau

gogyfer â phen-wythnos y dathlu!

Croeso i'r athrawon canlynol sy'n llenwi bwlch ein Prifathrawes ar hyn o bryd - Mrs. Liz Mills, Mrs. Alwena Williams, Mrs. Aerwen Griffiths a Mr. Dic Evans. Diolch o galon iddynt am eu gwaith caled ac am eu cefnogaeth i ni fel ysgol yn ystod yr amser yma.

Estynnwn groeso twymgalon hefyd i Dafydd Iolo Lloyd sydd newydd ymuno â'r Dosbarth Derbyn ac i Miss Natalie Jones, myfyrwraig blwyddyn olaf o Goleg y Drindod. Gobeithiwn y bydd y ddau yn teimlo'n gartrefol yn ein plith. Fe fydd Miss Jones yn treulio chwech wythnos o ymarfer dysgu yn Nosbarth y Babanod.

Treuliodd Blwyddyn 4,5 a 6 brynhawn difyr iawn yn gwyllo plant Ysgol Gyfun Llambled yn perfformio'r sioe 'High School Musical'. Dychwelodd y plant i'r ysgol yn byrlymu am yr hyn a welsont, a charwn ddiolch i Staff yr Ysgol Uwchradd am eu gwahoddiad caredig ac i longyfarch y plant ar eu perfformiad clodwiw.

Diolch hefyd i Brifathro a Staff Ysgol Ffynonbedr am eu gwahoddiad a'u croeso twymgalon i ni fel staff pan fuom yn ymweld â'r Ysgol newydd yn ddiweddar. Dymunwn bob hapusrwydd a llwyddiant iddynt ar eu safle newydd. Mae'r ysgol yn wir yn wledd i'r llygad!

Y tymor yma, mae'r plant Hŷn yn mwynhau sesiynau o ddrama dan ofal Mari Owen o Gwmni'r Arad Goch. Mae'r sesiynau yn ddilys i waith Mr. Russell Edwards, yr Athro Bro. Diolch i'r ddau ohonynt.

Ar ddiwedd y tymor diwethaf trist oedd gorfod ffarwelio â Mrs. Lynne

ffidil. Diolchwn iddi am ei gwaith ar hyd y blynyddoedd a dymunwn pob hapusrwydd iddi ar ei hymddeoliad.

Yn dysgu yn ei lle mae Mrs. Anne Marvelly, ac erbyn hyn mae tair yn derbyn gwersi ffidil ganddi, sef Carys Jones, Ffion Evans a Nancy Doyle. Mae Jac Jones hefyd wedi dechrau ar wersi trwmped gyda Mr. Roger Briant.

Cafwyd gwledd o gyngerdd yn Festri Capel Seion, Cwrtnewydd y mis diwethaf, a phleser o'r mwyaf oedd i'r plant gael cyfle unwaith eto i gyd-ganu gyda disgyblion Ysgol Cwrtnewydd. Diolch i'r Pwyllgor Llës am y gwahoddiad ac i Staff Ysgol Cwrtnewydd am eu croeso a'u parodrwydd i gydweithio gyda ni.

Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ysgol ym Mis Medi. Cledlyn enillodd ar ddiwedd y dydd gyda Steffan Evans ac Emma McEnery yn Gapteniaid. Diolch o galon i aelodau Sefydliad y Merched am baratoi bwyd blasus i'r plant ac am ddarparu rhubanau i'r enillwyr.

Y Gymdeithas Hŷn.

Cyfarfu'r gymdeithas yn festri Seion, Cwrtnewydd, ar y 10fed o Hydref. Ail etholwyd y swyddogion canlynol, Dilwen George yn gadeirydd, Glyn Davies yn ysgrifennydd ac Annie Bowen yn Drysorydd.

Lleoliad y cyfarfodydd dros dymor y gaeaf fydd –

Tachwedd 14eg – Festri Cwmsychbant

Rhagfyr 12fed – Neuadd Drefach Ionawr 9fed – Capel Brynteg Chwefror – Capel y Groes neu neuadd Drefach

Mawrth - Eglwys Llanwenog

Bydd ein cinio blynyddol naill ai ar 21ain neu'r 28ain o Dachwedd, – y dyddiad a'r lleoliad i'w gadarnhau yng nghyfarfod Tachwedd wedi derbyn bwydlenni gwahanol.

Diolchodd Mrs Irene Jones i aelodau Capel y Bryn am y te ar ddiwedd y cyfarfod.

Eglwys Santes Gwenog.

Cysylltir misoedd Medi a Hydref a chyRDDau diolchgarwch yn ein Capeli a'n Eglwysi. Eleni ar yr 8fed o Hydref daeth nifer dda o aelodau a ffrindiau ynghyd a chyflwynodd ein ficer, y Parch Bill Fillery, y Parch Dyfrig Lloyd, Llanddewi Brefi i'n hannerch. Wedi'r gwasanaeth, aeth nifer dda i Gellideg, cartref Viria Jones, ei mab Arwyn a'i merch Eirlys, i fwynhau Swper y Cynhaeaf. Diolchodd y ficer i'r gwrgudd am baratoi gwledd fendigedig, ac am eu gwaith yn ardduno'r eglwys. Diolchodd yn arbennig i Viria a'r teulu am eu parodrwydd i gynnal y swper yn eu cartref.

i'r canlynol – Mrs Moira Bone, Gerynant; Mrs Sian Davies, prifathrawes Ysgol Llanwenog. Da yw deall fod y ddwy adref bellach, wedi triniaeth yn ysbyty Glangwili.

Llongyfarchiadau i Siwan Davies, Llysderi a fu'n dathlu pen blwydd yn ddeunaw oed.

Cofiwch fod Lynne Goodall, Sychbant, yn derbyn y tâl o £10 i rai sydd heb ymuno yng nghlwb 100 yr Eglwys.

C.F.F.I. Llanwenog

Dros y mis diwetha' mae aelodau C.F.F.I Llanwenog wedi bod mor brysur ag erioed gyda nifer o gystadlaethau a digwyddiadau gwahanol.

Ddiwedd mis Medi, cynhaliwyd noson gwis yng nghwmni Rhian Thomas a Huw Evans. Mi joiodd pawb mas draw wrth bendroni dros nifer o gwestiynau gwahanol, o arwyr rygbi'r 1970au i gwestiynau am blwy' Llanwenog!

Gan fod cystadlaethau Chwaraeon Dan Do yn cael ei chynnal ddechrau mis Hydref, treuliyd nos Lun y 1af yn ymarfer ein sgiliau darts a phŵl yn nhafarn Cefn Hafod. Mae'n amlwg fod yr ymarfer wedi talu ei ffordd, gan fod y clwb wedi cael llwyddiant mawr yn y gystadlaethau wrth ddod yn 8fed.

Y cystadlaethau siarad cyhoeddus ddaeth nesa' ac, fel arfer, mi wnaeth C.F.F.I Llanwenog yn hynod o dda, wrth i ni lwyddo i gipio'r darian am y clwb gorau yn y gystadlaethau i gyd. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran, ac yn enwedig i'r rhai a gyrhaeddodd y brig yn eu cystadlaethau, sef Elin Jones, ail fel Cadeirydd o dan 16, a'r tîm o dan 16 yn ennill yr ail wobr. Dan 21, enillodd Lowri Davies y wobr am y Cadeirydd gorau, a daeth Arwel Jenkins yn ail fel siaradwr. O dan 26 daeth y tîm yn ail gyda Rhian Bellamy yn ail fel Cadeirydd a Manon Richards yn ennill fel siaradwr.

Hefyd, llongyfarchiadau mawr i Helen a ddyweddiodd â Peter yn ystod y mis.

Ar Hydref y 15fed, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y clwb yng nghapel Alltyblaca. Cafwyd noson dda iawn yng nghwmni aelodau'r Clwb a'r Parch.Goronwy Evans, a soniodd am bwysigrwydd ffynhonnau, gan gymharu aelodau'r Clybiau Ffermwyr Ifanc â ffynhonnau'r dyfodol a phwysleisio pwysigrwydd cadw'r ffynhonnau hyn yn lân i'r dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r holl aelodau'n paratoi'n brysur ar gyfer yr Eisteddfod, felly os fyddwch chi'n clywed sŵn canu peraidd yn dod o festri Capel Aberduar, mi fyddwch

chi'n gwybod pwy sy' wrthi!

Cylch Meithrin Drefach

Gan mai thema'r cylch y tymor yma yw dathliadau aeth yr athrawon, plant a'r rhieni i'r archfarchnad yn Llambled i brynu cynhwysion er mwyn gwneud cacen pen-blwydd i Sali Mali.

Dydd Iau, Hydref 11eg

Cafwyd ymweliad gan Sali Mali i'r cylch i ddathlu ei phenblwydd. Cafwyd parti bendigedig efo'r athrawon, plant, rheini, mamgu a tadeu's. Bu y plant yn brysur yn cwca erbyn y parti. Hefyd, bu Mrs Eleri Lewis, Rhiwson-Uchaf efo ni am fore yn gwneud cardiau i Sali Mali gyda'r plant. Diolch yn fawr iddi.

Dydd Mawrth, Hydref 16eg

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch gan blant y cylch yng Nghapel Bethel, Drefach. Daeth y Parch Wyn Thomas atom i ddiddori'r plant. Cafwyd eitemau gan y plant a daeth pob plentyn â ffrwythau i'w cyflwyno ar ôl y gwasanaeth i'r hen bobl yng Nghartref Maes-y-Felin, Drefach. Casglwyd £41.00 tuag at Tŷ-Hafan.



Llongyfarchiadau i Mrs Caryl Rosser ein cynorthwy-wraig ar basio Lefel 3 NVQ mewn Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad.

Croeso cynnes i Ceinwen Lloyd i'n plith. Mae'n hapus iawn yma.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHIWR.
COMISIYNNWR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambled
☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING
Y gwasanaeth arlwygo cyflawn ar gyfer bob achlysur:
Priodas; Penblwydd; Bedydd; Angladd; Cinio Busnes; Digwyddiadau Maes, Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach
Cyswilt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UN
☎ 01570 481230 ☎ 07967 559683

Colofn yr Urdd

TAITH OAKWOOD

29 Medi 2007

Ar ddydd Sadwrn olaf Medi mae'n draddodiad erbyn hyn fod criw o'r Urdd yn mynd am daith i Barc Hamdden Oakwood! Unwaith eto eleni, aeth criw mawr o flwyddyn 7 ac 8 (dros 80) Ysgolion Uwchradd Ceredigion ar daith Talaith y Canolfan i Oakwood. Daeth y bobl ifanc o ysgolion Penweddig, Tregaron, Llambled, Penglais a Dyffryn Teifi. Doedd dim llawer o bobl eraill yn y Parc ar wahân i grwpiau'r Urdd ac felly doedd dim rhaid aros yn hir i fynd ar y reidiau. Roedd atyniadau fel 'Speed', 'Megafobia' a 'Bounce' yn boblogaidd iawn a mentrodd y rhai dewr ar yr 'Hydro' ond roedd eu lluniau'n dangos nad oedden nhw'n ddigon dewr i gadw eu llygaid ar agor ar y ffordd i lawr! Roedd y rhai na fentrodd ar y reid yn ddigon dwl i sefyll ar y bont a chael ei gwlychu!!

Diolch o galon i'r holl staff am wneud y daith yn bosibl.

Taith Gerdded Cylch Llambled

Dydd Iau 27 Medi 2007

cynhaliwyd taith gerdded noddedig i godi arian tuag at weithgareddau'r Urdd yng Nghylch Llambled ac at Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010.

Mi oedd y daith yn cychwyn o Maes Parcio Pentop, Llanllwni ac yna ar hyd yr heol at dop mynydd Llanllwni. Mi wnaeth bron i 500 o blant gerdded y daith, roedd pawb yn gwisgo coch, gwyn a gwyrdd, pawb yn canu ac yn mwynhau yn

y tywydd braf ond oer. Hefyd mi ymunodd Mr Urdd â'r daith.

Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn gyda phawb wedi mwynhau ac mae'n siwr mi fyddwn wedi codi tipyn o arian i'r Cylch.


Diolch i bawb wnaeth gefnogi'r daith. Gobeithio cawn gwmni ein gilydd eto mewn taith debyg.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010

Cynhelir Pwyllgor Apêl Plwyf Llanwenog a Llanwnnen yn Neuadd Drefach nos Lun, 19 Tachwedd am 7:30y.h. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH yw'r un gair bach sydd ar ôl. Heb os nac oni bai, mae Ceredigion yn ffodus iawn o gael Anwen Eleri yn llywio'r llong. Diolch o galon iddi am ymrwymo i roi cyfleoedd i ieuenctid y sir.

Hysbys: os oes gennych unrhyw newyddion am yr Urdd yr hoffech ei gynnwys yn y golofn hon, a wnewch chi ei anfon i'r cyfeiriad isod mewn da bryd i'w gynnwys yn CLONC – ysgrifennydd@clonc.co.uk



O'r Cynulliad

gan Elin Jones AC

Ers imi ysgrifennu fy ngholofn ddiwethaf, rwyf wedi mynychu'r Ffair Geffylau a gynhaliwyd ym Mhonrhydfendigaid ar ddiwedd mis Medi, a braf oedd gweld cymaint o dyrfa yno! Yn fwy diweddar, rwyf wedi cael y cyfle i fynychu nifer o ddigwyddiadau eraill ar hyd a lled Ceredigion gan gynnwys agoriad swyddogol y Ganolfan Ddelweddu newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fe wnes hefyd agor adeilad newydd Canolfan Rhosserchan yng Nghapel Seion, Aberystwyth ac, yn rhinwedd fy swydd fel Gweinidog dros Faterion Gwledig, ymwelais â'r Ffair Hyrddod yn Llanelwedd.

Daeth dau ddatganiad pwysig i Geredigion yn ystod y mis diwethaf oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. Yn gyntaf, ar ddechrau'r mis fe amlinellodd y Gweinidog dros Drafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones AC, ei flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghymru dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r blaenoriaethau yma'n cynnwys gwella'r gwasanaeth ar y rheilffordd rhwng Aberystwyth a'r Amwythig ac ehangu'r gwasanaeth TrawsCambria. Ers imi deithio i lawr o Geredigion i Fae Caerdydd ar y TrawsCambria ac yna yn ôl ar y trênn, rwyf wedi gweld dros fy hun y problemau sy'n wynebu trigolion lleol wrth iddynt geisio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, felly rwy'n gobeithio y bydd y buddsoddiad newydd yn help i wella'r gwasanaeth.

Yn ail, daeth cadarnhad oddi wrth y Gweinidog Iechyd, Edwina Hart AC, ei bod am sicrhau dyfodol llewyrchus i Ysbyty Bronglais. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod dal am fuddsoddi £20 miliwn yn y gwasanaeth iechyd cymunedol yng Ngheredigion drwy wella'r ddarpariaeth yn ysbytai Tregaron ac Aberteifi, ac agor canolfan iechyd newydd yn Aberaeron. Mae hyn yn sicrhau newydd da dros ben i drigolion Ceredigion. Mae'r trafodaethau i ddatblygu cynllun ar gyfer ysbyty newydd yn Aberteifi eisoes yn mynd yn eu blaen. Rwyf nawr yn gobeithio y bydd cadarnhau'r buddsoddiad yma yn awr yn annog trafodaeth debyg ar ddyfodol adeilad ysbyty Tregaron. Y gobaith yn y pen draw yw datblygu rhwydwaith ymysg ein hysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, ac Ysbyty Bronglais er mwyn darparu'r gwasanaeth iechyd yng Ngheredigion yn unol â'r Cynllun Iechyd Gwledig fydd yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol agos.

Cystadleuaeth Sticer Car CLONC

Braf gweld llawer o geir yr ardal yn arddangos y sticeri. Llawer o bobl felly â'r cyfle i ennill £10 bob mis am wneud hynny yn ystod eleni, blwyddyn dathlu pen-blwydd Clonc yn chwarter canrif.



Llongyfarchiadau i Gladys Evans, Gwen-y-gar, Llanybydder ar ennill £10 yn y rhifyn diwethaf.

Rhif car yr enillydd lwcus y mis hwn yw **L2 MHR**. Mae gennych ddeg diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhifyn hwn i hawlio'ch gwobr. Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes cyn gynted â phosib.

Llanfair

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Jean Entwistle, Siop Pont Llanfair oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar ddydd Iau, Hydref 25ain. Hwyl fawr i ti Jean.

Sefydliad y Merched

Cafwyd noson ddiddorol dros ben ar y 25ain o fis Hydref pan ddaeth Anne Edwards i ddangos ffilm i roi gwybodaeth am Ambiwylans Awyr Cymru, a sut mae yn gweithio. Mae yn dibynnu yn hollol ar gyfraniadau a gallwn ni helpu trwy brynu cardiau Nadolig, talu yn wythnosol i'w loteri, a danfon ein hen ffôn symudol a cartridj printio iddynt. Hefyd bu Dodi Hershel Nant y Felin yn siarad am ei chefnidir hi a'i gŵr Jamie a sut y dechreuodd y ddau redeg eu busnes crochenwaith gyda'i gilydd. Erbyn hyn maent wedi gorffen adeiladu eu Stiwdio sydd yn agor erbyn y Nadolig lle byddant yn rhedeg cyrsiau a gwerthu nwyddau. Daeth Dodi a samplau o'r gwaith i ddangos ac edmygydd y gwaith yn fawr iawn. Pob lwc iddynt yn eu busnes newydd ar Heol Llanfair.

Byddant yn cwrdd nesaf ar Dachwedd 22ain. Bydd y Twmpath Dawns yn cael ei gynnal ar Ragfyr 1af. Dyddiadau Twine a Whine am Dachwedd yw yr 8fed a'r 22ain.

Gwahoddir cwmnïau lleol i hysbysebu yn CLONC yn rhifyn Nadolig. £10 am hysbyseb bach fel ar y dudalen hon, neu £50 am un mewn 10 rhifyn - Bargen! Cysylltwch â'r trysorydd ar 01570 480015, neu ysgrifennydd@clonc.co.uk Efallai bydd cynrychiolwyr CLONC yn galw gyda chi cyn bo hir.

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chreffft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiadurol eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

D Aled Evans

Plymwr a
Pheiriannydd Gwresogi



Gosodwr a Chynhaliwr

- Systemau gwresogi
 - Baddonau a chawodydd
 - Gwresogyddion mewn lloriau
 - Gwasanaeth cynnal a gosod boileri a'u hatgyweirio
- Ffôn/Ffacs 01267 253230 neu 07966 592 183

Deintyddfa
Llys Einion
Dental Surgery



Dr. GLENYS DAVIES
60 HEOL MAENGWYN
MACHYNLLETH
POWYS
SY20 8DY

Yn agor

DYDD LLUN 8fed o HYDREF 2007

GWASANAETH DDEINTYDDOL
BREIFAT NEU "DENPLAN"

YN CYMERYD ENWAU DROS Y FFON
10 o'r gloch y bore tan 3 o'r gloch y prynhawn

01654 700022



Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Mwnici ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled
☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Gwesty'r Grannell Llanwnnen



Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyio ar gyfer pob
achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.

Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476



Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

KING'S HEAD



Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422598

o dan reolaeth newydd
Emyr ac Ann Marie.
Bwyd Ffres a Chwrrw Da.
Croeso cynnes i bawb.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

Arnold Davies Vincent Evans

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Llanybydder

18 oed

Penblwydd hapus i Shaun Ablett, West Winds, Llanybydder a ddathlodd ei benblwydd yn 18 oed ar 21 Hydref.

Diolch

Dymuna teulu Ray Jones, 44 Bro Einon ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am yr arian a dderbyniwyd tuag at Ymchwil y Cancr. Diolch hefyd i Tom Lewis, Cyfarwyddwr Angladdau am drefnu y cyfan mor barchus a theilwng.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Sam a Daniel, David, Aneurin a Glenys, Keith, Delyth a'r teulu oll ym marwolaeth Susan, 25 Bro Einon yn dilyn salwch hir. Cafodd angladd gyhoeddus yng Nghapel Rhydybont, gyda gwasanaeth breifat i'r teulu yn Amlogfa Aberystwyth.

Hefyd cydymdeimlir â Lynwen, Glasdir, Llanybydder, Jonathan, Richard a'r teuluoedd ar farwolaeth Mr Jack Humphreys, Llwyn, Pencader ar ddechrau mis Hydref. Cynhaliwyd angladd breifat a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Pencader.

Hefyd yn ystod y mis bu farw Victor Jenkins, Peronn yng Nghartref Alltymynydd. Cydymdeimlir â'i chwaer Gaynor yn Llambled, ei nithoedd Jean a Nans a'i nai Nigel. Bu'r angladd yng Nghapel y Bryn ac yno rhoddwyd ei weddillion i orffwys.

Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr nos Lun gyda Linda yn llywyddu. Ar ôl darllen y gohebiaeth a thrafod y materion yn codi, cyflwynodd ein gwraig gwadd sef Mrs Mary Davies o Llambed. Bu yn sôn am y daith gerdded bu hi a Ray ei chwaer yn ei wneud yng nghwlad yr Iâ ddwy flynedd yn ôl i godi arian i helpu Cymdeithas y Byddar. Cafwyd adroddiad diddorol iawn ganddi am y wlad a'i thirwedd, a'i phrofiad o godi a chysgu mewn pabell. Diolchwyd iddi gan Margaret. Paratowyd y te gan Caroline a Nans. Rhoddwyd y

raff gan Elonwy ac enillwyd gan Margaret. Yn y cyfarfod nesaf bydd yr aelodau yn mynd i Gegin Gareth i weld arddangosiadau ar gyfer y Nadolig.

Cynhelir Noson Nadoloigaidd gyda artistiaid lleol a Lleisiau'r Werin yn Eglwys Sant Pedr Llanybydder am 7y.h. ar nos Sul 16eg o Ragfyr

Noson Ymchwil y Cancr

Cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn yn y Clwb Rygbi Llanybydder nos Sadwrn yr 20fed o Hydref o dan nawdd y pwyllgor lleol o Ymchwil Cancr. Arweinydd y noson oedd Mrs Ann Jones. Cyflwynodd y llywyddion sef Mr & Mrs Timothy Davies, Llys Enwyn. Cafwyd ychydig o eiriau pwrpasol iawn gan Mrs Gwyneth Davies a derbyniwyd rhodd hael iawn ganddynt. Roedd Rhys ap Hywel (Jason o Bobol y Cwm) yn bresennol a chafwyd ychydig o eiriau ganddo hefyd



Aeth Ann ymlaen i gyflwyno Paul Dazeley y comediwr a'r canwr i'n diddori. Ar hanner amser gwerthwyd byrgers wedi eu rhoi gan aelodau y Clwb Rygbi. Bu aelodau o'r gangen yn gwerthu tocynnau raffl mewn gwahanol sioeau yn ystod yr haf ac yn siop Morrisons Caerfyrddin. Yr enillwyr oedd K Rowley o Llantwit Major; M Thomas o Aberdaugleddau; 01977 675632; Thomas Coopers o Garnswllt; Tomos Maesygrug, Talgarreg. Gwerthwyd raffl arall ar y nos a rhoddwyd nifer o'r gwobrwyon nôl i'w gwerthu gan ychwanegu at y gronfa. Andrew Wilson oedd yn gwerthu a chafodd ymateb da iawn. Derbyniwyd sic o £750 gan Mrs Angela Thomas ar ran Banc Barclays cynllun £ am £ a sic o £1000 gan Kelvin James, Lucy Jones a Geraint Jones ar ran y tim pêl-droed ieuenticid Llanybydder. Diolchodd Aneurin

Davies, cadeirydd y gangen leol o Ymchwil cancr i Mr & Mrs Davies, Angela Thomas, Tim Pêl-droed, Paul Dazeley ac i Rhys ap Hywel. Diolchodd hefyd i bawb a roddodd wobrwyon y raffl fawr a raffl y nos ac am bob cefnogaeth.

Cynhelir Noson yng Nghlwb Rygbi Llanybydder ar nos Sadwrn, Tachwedd 17eg gyda Royston Jones duo a Dai Jenkins Llansawel am 8:00y.h. Elw i Cancr Cymru

Llangybi

Clwb Bro'r Dderi



Ar ddechrau'r flwyddyn newydd cawsom sosial i groesawu aelodau newydd i'r clwb. Bu rhai o aelodau yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth chwareon dan do - cafodd pawb lawer o hwyl.

Cymerodd 2 dîm rhan yn siarad cyhoeddus dan 14 - tîm 1 (Elin Gwyther, Ceris Quan a Aron Dafydd) a tîm 2 (Lowri Pugh Davies, Charlotte Evans a Elliw Davies) ac un tîm o dan 16 (Guto Gwilym, Hedydd Davies ac Elliw Davies). Roedd Guto Gwilym wedi cael 3ydd fel siaradwr a chafodd Hedydd Davies 3ydd fel Diolchdydd. Gweler y llun uchod.

Mae Hedydd hefyd wedi cael ei dewis yn Gadierydd Fforwn Ieuenticid Cymru, ac is-gadierydd Fforwm Ieuenticid Ceredigion.

Ar hyn o'r bryd rydyn yn paratoi ar gyfer yr eisteddfod. Croeso i unrhywun ymuno â ni - Nos Iau 7.30 yn Ysgol Y Dderi.

Cydymdeimlo

Blin gennym gofnodi marwolaeth Mrs. Margaret Jane Evans yn ysbyty Gyffredinol Aberdar. I ran fwyaf o bobl pentref Llangybi, Magi Tancoed Isaf oedd Margaret Jane Evans. Rydym yn cydymdeimlo â'r teulu sydd yn weddill yn yr ardal yma.

Cydymdeimlwn hefyd â holl deuluoedd yr ardal sydd wedi bod mewn profedigaeth yn ystod y mis diwethaf yma.

Ysgol Y Dderi

Diolch o waelod calon i'r Pwyllgor Rhieni Athrawon am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r ymgyrch codi arian. Bu'r sioe ffasiynau yn llwyddiant mawr a chodwyd £5,200 i'r ysgol. Nid ar chwarae bach mae codi swm mor enfawr, golyga gryn ymdrech, amser a brwdfrydedd. Diolch i chi i gyd. Diolch arbennig i Janice a'r staff yn Duet hefyd. Llywydd y noson oedd Mrs Deborah Jones, cyn-riant a chyn-drysorydd y Pwyllgor Rhieni ac Athrawon. Diolchwn iddi am gyfrannu mor hael tuag at yr ysgol.

Cynhaliwyd ein cyrddau diolchgarwch eleni, yn Eglwys Betws Bledrws ac Eglwys Gartheli. Dymuniad y plant oedd bod yr arian yn mynd tuag at gronfa "Marwolaeth Y Crud". Casglwyd £155. Hefyd casglwyd nifer o focsys Nadolig a dillad ar gyfer apêl Romania.



Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Gwobrau Arloesedd 2007

Rydym yn falch iawn o lwyddiant Shawn Brown a ddyfeisiodd declyn i atal wiwerod rhag dwyn bwyd adar (eco-friendly squirrel-proof bird feeder adaptor)! Mae ei waith yn cael ei arddangos ar hyn o bryd yn y gystadleuaeth bwysig hon. Mae'r arddangosfa yn gyfle i weld y prosiectau mwyaf arloesol sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer lefel A,UG, a TGAU. Cynhelir y digwyddiad yn ystod tymor yr Hydref mewn lleoliadau yn y Gogledd a'r De. Mae'r adran Ddylunio a Thechnoleg eisoes wedi ymweld â'r arddangosfa yng Ngerddi Sophia yng Nghaerdydd.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi cael cadarnhad fod gwaith Shawn yn haeddu'r ganmoliaeth uchaf, a'i fod wedi cael ei ddyfarnu yn un o'r tri gorau ar gyfer gwaith lefel TGAU. Golyga hyn ei fod ef ei hun yn ennill gwobr o £75 yn ogystal â £75 i'r ysgol. Fe wnaeth Jane Hutt, y Gweinidog Addysg, gyflwyno'r wobwr i Shawn yn ystod ein hymweliad.

Rydym hefyd ar ddeall bod gwaith Shawn wedi cael ei ddewis, gan y Cynulliad i gynrychioli Cymru yn y Sioe Ddyfeisio Brydeinig yn Llundain. Hoffwn fel ysgol longyfarch Shawn a dymuno pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Borneo

Ar ôl deunaw mis o godi arian, aeth grŵp o 10 o ddisgyblion ysgol Llanbedr ar alldaith i Forneo am fis.

Cafon ni brofiadau gwych yn ystod ein taith. Fe ddysgon ni am ddiwylliannau gwahanol, bwyton ni amrywiaeth o fwydydd diddorol iawn (yn cynnwys brogaod yn y jyngl!), ac fe wnaethon ni lawer o ffrindiau newydd. Roedd y tywydd yn Borneo yn wahanol iawn i Gymru, gyda'r tymheredd yn cyrraedd dros 30oC ac roedd yn llaith iawn!



Am wythnos buon ni'n gwneud gwaith cadwraeth gyda'r prosiect SOS Rhino, sy'n helpu achub y Sumatran rhino, anifail prin iawn erbyn hyn.

Aethom i mewn i'r jyngl a gweld sut oedd y llwyth brodorol Dunsundal yn byw bywyd traddodiadol. Un o'r uchafbwyntiau oedd gweld anifeiliaid megis mwnciod, pryfed rhyfedd, yr orangutans a'r eliffantod yn y jyngl, yn ogystal â'r Sumatran

rhino mewn gwarchodfa bywyd gwyllt.

Fe ddringon ni hefyd i gopa Mount Kinabalu, y mynydd uchaf yn Ne Ddwyrain Asia, sy'n sefyll 4095 metr uwchlaw lefel y môr. Ar ôl y



diwrnod cyntaf o ddringo arosan ni mewn man gorffwys 3200m i fyny, cyn ail-gychwyn am 2 y bore er mwyn cyrraedd y copa cyn toriad gwawr. Roedd yr olygfa o'r copa yn anhygoel! Roedd y dringo yn anodd, ond trwy gydweithio a chefnogi ein gilydd cyrrhaeddodd pawb yn y grŵp y copa!

Gan Angharad Guy ac Aled Thomas (Bl 13)

Adran y Gymraeg

Taith i'r Ysgwrn a Thryweryn

Ar Orffennaf 10fed aeth disgyblion o flwyddyn 10 a 12, ynghyd â Delor James a Sarah Evans ar daith i gartref Hedd Wyn, yn 'Yr Ysgwrn' Trawsfynydd. Gwnaed yr un daith ar 19eg o Fedi, gyda chriw o ddisgyblion, yng nghwmni Hedydd Thomas ac Edwina Rees. Bu ymweld â'r Ysgwrn yn brofiad buddiol a diddorol, a chawsom weld y Gadair Ddu a chadeiriau eraill Hedd Wyn a chael cwrdd â'i nai, Gerald. Oddi yno aethom i weld lle boddwyd dyffryn Tryweryn, ymwelwyd â'r capel coffa a'r fynwent hefyd. Tynnwyd llwyth o luniau i gofnodi'r achlysur a chafwyd ymateb da gan y disgyblion. Roedd yn brofiad gwerth chweil i ymweld â'r llefydd hyn, er mwyn dod â chefnidir eu cerddi'n fyw. Profiadau bythgofiadwy yn wir.

Taith i'r theatr

Fe wnaeth disgyblion o flwyddyn 11,12 a 13 ymweld â theatr Mwldan, Aberteifi, ar Hydref 11eg, i weld perfformiad y Theatr Genedlaethol o 'Porth y Byddar' sef hanes boddi dyffryn Tryweryn.

Chwedleua

Ar Fedi 12fed, bu Siwan Davies, Lowri Davies, Alice James a Luned Mair yn gwrando ar y chwedleuwr enwog ac amryddawn, Michael Harvey, yn adrodd chwedl 'Branwen' yn Nhafarn bach Pontsian, fel rhan o Wyl y Cyfarwydd. Profiad arbennig.

Tlws arall i Luned

Llongyfarchiadau i Luned Mair ar ennill Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc

yng Ngŵyl Fawr Aberteifi, ar y 7fed o Orffennaf, gyda chlod am safon uchel iawn. Dalier ati'n hyderus. Ymfalchiwn yn ei llwyddiant.

'Beirdd aeddfed Llanbedr a Llŷn'

Dyna bennawd 'Colofn y beirdd sy'n celu' yn rhifyn yr Hydref o gylchgrawn 'Barddas'. Yn y golofn hon gwelir lluniau Luned Mair a Siwan Davies, ynghyd â'u cerddi, ac ychydig o hanes y ddwy. Ymfalchiwn yn eu llwyddiant a'u brwdfrydedd, a cheir canmoliaeth uchel gan Andrea Parry, awdures y golofn. Da iawn ferched – mae'n wych i'ch gweld yng nghylchgrawn 'Barddas'! Daliwch ati.

Yr Adran Ieithoedd Modern

Bu 20 o ddisgyblion TGAU Sbaeneg a Ffrangeg mewn cynhadledd ar bwysigrwydd Ieithoedd Modern i fyd gwaith ar yr 21ain o fis Medi yn Aberystwyth. CILT Cymru oedd yn trefnu'r cwrs ac fe gafwyd cyflwyniadau diddorol gan bobl o'r byd gwaith ynghyd â myfyrwyr oedd yn astudio ieithoedd yn y Brifysgol. Cymerodd y disgyblion ran mewn cwis ieithoedd a chawsant y cyfle i ddysgu ychydig o Wyddeleg. Profiad diddorol yn wir!

Ysgol y Dderi

Ar Fedi'r 27ain, bu Dr Delyth Jones a Mrs Bethan Griffiths-Payne ar daith i Ysgol y Dderi, Llangybi, gyda llond bws o gyn-ddisgyblion yr ysgol gynradd er mwyn dathlu deng mlynedd o gysylltiadau Ewropeaidd, fel rhan o gynllun Comeniws yr ysgol. Yn ystod y bore, cafwyd gyfle i bobi bara yn Norwy, dawnio gwerin yng Nghymru a bwyta pasta yn yr Eidal. Roedd yna hefyd ymwelwyr o Siapan yno yn dysgu origami. Diolch yn fawr i Mrs Ann a staff y Dderi am eu croeso.

Wythnos Sefydlu Bl 12

Yn ystod yr wythnos trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau er mwyn sicrhau bod Bl 12 yn ymgartrefu yn y Chweched. Ar ôl diwrnod o gyflwyniad, cafwyd diwrnod Mentergarwch. Y dasg i'r disgyblion oedd ceisio creu a gwerthu nwyddau er mwyn gwneud elw. Roedd hyn yn caniatáu iddynt ddatblygu sgiliau megis cyfathrebu, rheoli amser, gweithio mewn tîm a datrys problemau yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o fyd busnes - sgiliau y mae colegau a chyflogwyr yn chwilio amdanynt. Fe wnaeth y diwrnod roi'r profiadau perthnasol iddynt ar gyfer gwneud cais coleg neu ymgeisio am swydd.

Yn dilyn hyn, trefnwyd ymweliad i'r Senedd ym Mae Caerdydd, lle cafodd y disgyblion eu tywys o amgylch yr adeilad. Yn ystod y daith, cafwyd cyflwyniad diddorol ar swyddogaeth y cynulliad, y ffordd y mae'n gweithredu a pham ddylai pobl ifanc ddefnyddio eu pleidlais.

Gorffennodd yr wythnos gyda thaith i Ganolfan Awyr Agored Llain,

lle cafwyd llawer o hwyl yn ceisio gweithio mas sut i adeiladu rafft a'i hwylio cyn iddi suddo!

Y Gornel Alwedigaethol



Mae'r disgyblion sy'n dilyn y pynciau galwedigaethol yn cael y cyfle i ymarfer yr hyn maen nhw wedi eu ddysgu yn y dosbarth.

Ym maes Busnes, mae'r disgyblion yn bwriadu sefydlu a rhedeg busnes go iawn. Mae'r Grŵp Menter Ifanc Bl 12 yn y broses o godi arian er mwyn sefydlu ei busnes 'Beads & Bobs'. Maent eisoes wedi trefnu un gweithgaredd – cystadleuaeth PS2 – a'r enillydd y tro hwn oedd Trystan Jenkins (Bl 8). Fe'i gwelir yn y llun yn derbyn ei wobwr oddi wrth Mathew Richards a Jacob Fretwell.

Mae rhai o'r disgyblion sy'n dilyn y cwrs Iechyd a Gofal wedi bod yn helpu yng Nghanolfan y Bont, lle maent yn cael gwell syniad o'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir, y problemau a wynebwr a sut i'w goresgyn.

Ym maes Teithio a Thwristiaeth, mae'r disgyblion wedi bod yn brysyr yn trefnu teithiau fel rhan o'u gwaith cwrs. Trefnwyd taith i'r sinema yn Abertawe, taith i Gaerdydd i weld 'The Producers' a thaith o amgylch Llundain i weld y prif atyniadau.

Ymarfer Corff

Mae'r tymhorau rygbi, pêl-droed, hoci a phêl-rwyd wedi dechrau gyda phrysurddeb mawr. Eisoes, mae nifer wedi eu dewis i chwarae dros Geredigion:

Hoci dan 14: Jodie Thomas, Carwen Richards

Hoci dan 16: Melanie Thomas, Lowri Williams, Elen Thomas, Jane Davies, Ffion Gaunt

Hoci dan 18: Elin Jones, Hannah Thomas, Kelly Davies

Pêl-rwyd dan 14: Carwen Richards, Jenny Davies, Lisa Thomas, Sioned Douglas, Leanne Davies

Pêl-rwyd dan 16: Jane Davies, Melanie Thomas, Leah Hargreaves, Bobby Wilson, Meinir Williams, Heledd Thomas

Pêl-rwyd dan 18: Hannah Thomas, Hedvdd Wilson, Danielle Jones

Rhifyn mis Rhagfyr

Yn y Siopau

6ed Rhagfyr

Erthyglau i law erbyn

22 Tachwedd

Newyddion i law erbyn

26 Tachwedd

Blog i'r bollog.

Odw, fi wedi bod yn stwffio fy hun mis yma. Ond nid gyda chacen, byddwch chi'n falch i glywed. Fi wedi bod yn twrio yn y bowlen salad ffrwythau, a fi nawr yn meddwl mod i'n gaeth iddo. Fi'n ei gael e i frecwast gyda iogwrt naturiol (heb fraster), fi'n ei gael e i ginio, a fi'n cael bach ar ôl cyrraedd adre o'r gwaith. Mae'n wych...yn fy mreuddwydion!

Oeddech chi'n credu fi?! Ha! Ond mae yna peth gwirionedd. Fi wedi bod yn ymdrechu gyda'r ffrwythau. Fy hoff gyfuniad yw un banana, un tangerine, un afal, llond llaw o rawnwin, llond llaw o fefus; a fi'n ymdrechu i fwyta fe pan fi'n teimlo'n euog ar ôl sgoffio cacen siocled. Mae'n flasus, rhaid cyfadde'.

Ac mae'r botel win wedi cael llonydd ers dipyn hefyd, achos wnes i ddarganfod y gallwn i gael 3 shot o fodca am un gwydraid o win! Does dim rhyfedd bod cywion Rwsia'n slim!

Wnes i golli dau bwys wythnos diwetha, hwre! Seren aur. Ond peidwch â dweud wrth Mon Furher mod i wedi dathlu trwy gael llond plat o gyri, reis, bara naan - y wyrcs i gyd! A wnes i lwyddo i ffeindio twll bach yn fy mol i groesawu hufen iâ moethus hefyd. Twt twt. Ond dim ots, achos wythnos

diwetha', fe wnaeth fy gajet newydd gyrraedd yn y post, sydd yn mynd i fy helpu i golli pwysau. Treinyrs arbennig o'r enw Chung Shi. Mae'n debyg eu bod nhw'n cynyddu metabolismm a lleihau seliwlait. Gwych! Maen nhw hefyd i fod gwneud fy mhen-ôl i'n llai, a chael y braster bant o fy mola. Ond weden i fod rhaid i fi wneud bach o waith ynddyn nhw cyn i hynny ddigwydd.



Dim ond unwaith fi wedi eu gwisgo nhw eto, a hynny yn Tesco, ac roedd fy ngŵr i'n goch o embaras. Chi'n gweld, mae'n rhaid cerdded ar y sodle yn gyntaf, yna a'r y bodiau. Felly roedden i'n cerdded mewn modd hynod od, yn bobio lan a lawr fel twmffat, yn gwmws fel pe bawn i'n trio ail fyw hen sgetsh o Monty Python!

Fi'n gobeithio wrth ddefnyddio nhw'n gyson, bydd y cerddediad od yn diflannu, a bydd neb ddim callach fy mod i'n eu gwisgo nhw. Ond tan hynny, bydd rhaid i fi edrych fel clown. Dim newid yn y fan yna de.

Mwy, mwy, mwy.



Sbin -Dici bows, swopio dillad, Primark.

Bin - legins, wigs, lliwio gwallt.

Pos Mathemategol

	+		+		14
+		-		-	
	+		-		1
+		+		+	
	X		+		73
17		14		-2	

Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw:
Cyfeiriad:

Cod post:
Rhif Ffôn:

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

7			9			3
		3	1	8		6
	6	7	4		1	
4					3	8
5	1					2
	3	6	5	9		
2		6	1	3		
1			8			7



Deng niwrnod yn Ne Korea Shaun Ablett o Lanybydder yn cael blas ar dde Korea

Fis Gorffennaf 2007, fe es i am drip deng niwrnod i Dde Korea wedi i un o'm ffrindiau sy'n dod oddi yno ofyn a hoffwn gael profiad o wlad gyda thraddodiadau hollol wahanol.

Dewisais fynd ar ben fy hun gan y byddwn yn cael mwy o brofiad personol o wneud hynny.

Gweld cymaint

Cefais ddeng niwrnod ardderchog a gweld cymaint o bethau bythgofiadwy.

Ymwelais â Byd Lotte, math o Disneyland ond bod y rhan fwyaf ohono dan do.

Roedd y sioeau lleol yno yn ardderchog a dangoswyd y bobl leol yn dawnsio a dringo rhaffau - y cyfan fel gwylio athletau a rhaglen National Geographic ar yr un pryd.

Diddorol iawn!

Ymwelais ag amgueddfa wahanol bron bob dydd yn ogystal â lleoedd o ddiddordeb fel tai traddodiadol y wlad gan deimlo weithiau fel disgybl mewn gwers hanes gan imi gael llawer o wybodaeth hanesyddol yn ymestyn yn ôl ganrifoedd.

Ymwelais â'r brifddinas, Seoul, nifer o weithiau hefyd.

A minnau'n dod o bentref bychan yn Sir Gaerfyrddin rwy'n siŵr y gallwch ddychmygu sut deimlad oedd bod mewn dinas mor enfawr gyda chymaint o bobl ar y strydoedd.

Yn wir, roedd pob siop unigol yn mwy na phentref Lanybydder i gyd!

Ond fyddwn i byth wedi mynd ar goll, oherwydd allan o'r miloedd ar filoedd sy'n byw yn Seoul, fi oedd yr unig un gyda gwallt coch!

Technoleg

Anodd credu pa mor arbennig yw'r dechnoleg yno.

Wyddwn i ddim taw cwmni o Dde Korea yw Samsung er enghraifft.

Roeddwn yn ffodus iawn i gwrdd â llawer o bobl leol a dysgu llawer amdanyh nhw.

Roedd hi'n anodd deall eu Saesneg ac, yn wir, roedd llawer ohonynt hwythau yn methu neall innau a bu'n rhaid imi ddefnyddio llawer ar fy nwylo i gyfathrebu!

Mae'n anodd cyfleu pa mor hyfryd oedd y bobl a chefais fy nghoesawu fel brenin ym mhob man!

Cefais lawer o sgysiau yn Saesneg gyda nhw a thipyn o sgysiau yn y Gymraeg hefyd gan nad oeddwn i am deithio i ben draw'r byd heb ddysgu bach o Gymraeg iddyn nhw a sôn am Gymru fel gwlad.

Ar y cychwyn roedd eu hacen yn

eithaf doniol wrth iddynt ddweud pethau Cymraeg syml fel 'Bore da' a 'Diolch yn fawr' ond erbyn diwedd yr ymweliad yr oedden nhw'n dda iawn.

Dysgais innau dipyn o eiriau eu hiaith hwythau hefyd ond mae'n iaith gymhleth ac anodd iawn!

Cristion o Gymru

Sylweddolais cyn dod adref fod pobl De Korea yn hoff iawn o Gymry a hynny oherwydd i Gymro fod yn genhadwr yno a'u dysgu am Gristnogaeth.

Byddwn yn cynghori unrhyw un i fynd allan i Dde Korea gan imi gael profiad bythgofiadwy yno gyda chymaint o bethau i'w gweld a'u gwneud yno.

Mae'r bobl yn garedig iawn ond efallai na fydd y bywyd at ddant pawb - ond mae bwyty McDonalds ar ben pob stryd.

Rwy'n gobeithio dychwelyd yno cyn bo hir.

Mae'r erthygl hon yn rhan o gynllun cyfrannu i bapurau bro sy'n parhau tan Ionawr 2008 rhwng BBC Cymru ac Antur Teifi. Am fwy o fanylion ac i wybod sut y gallwch ennill £30 am ysgrifennu cysylltwch â cyswllt@papurbro.org neu 08456 023912.

Clwb Clonc

Mis Tachwedd 2007

£25 rhif 251 :

Eric Jones, Hafod-yr-Wyn, Gorsgoch.

£20 rhif 386 :

Margaret Rowlands, Crud-yr-awel, Felinfach.

£15 rhif 213 :

John James, Maesteg, Cwmann

£10 rhif 393:

Merfyn Thomas, 10 Nantoer, Llanbydder.

£10 rhif 48 :

Edward Davies, Maesnewydd, Rhydowen.

£10 rhif 182:

Mrs Doreen Harries, 21 Heol Hathren, Cwmann.



Masnachwyr Amaethyddol

01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

Yn y Gegin gyda Gareth



Danteithion i Danio Dathliadau Tân Gwylt.

Eleni beth am gynnal parti i ffrindiau a'r teulu, wedi iddynt fod allan yn gwyllo Tân Gwylt yn y pentref.

Mae'r rysetiau canlynol yn addas i bawb i fwynhau allan yn yr ardd yng ngolau'r lleuad a'r sêr. Mae modd paratoi'r cyfan ymlaen llaw, fel eich bod chi hefyd yn medru mwynhau'r cyfan.

Cofiwch gael y plant yn rhan o'r gweithgaredd yn y gegin i'w baratoi.

Cadwch yn gynnes a diogel a bwytwch llond bol.

Hwyl yn y gegin,

Gareth.

Pice Porc Tân Gwylt!

Cynhwysion.

350gm crwst byr

75gm o gig moch wedi'i ddarnio

75gm o fadarch wedi'u darnio

50gm o fricyll sych

150gm o gaws Cheddar

Ychydig bersli wedi ddarnio

Un ŵy wedi'i guro

Llond llwy fwrdd o tsiytni winwns

Dull

1. Rhowch y ffwrn ar dymeredd 200°C / 180°F / Nwy 6
2. Ffriwch y bacwn a'r madarch am 5-6 munud ac ychwanegwch y caws, bricyll, tsiytni a'r persli.
3. Rholiwch y crwst a thorrwch dwsin o gylchoedd. Gosodwch ar dun pobi. Rhannwch y llenwad rhwng y cylchoedd. Rholiwch y gweddi o'r toes gan ddefnyddio torrwr 8cm, gwnewch rhagor o gylchoedd. Gan ddefnyddio dŵr, seliwch un cylch ar ben y llall, yna gyda brws gorchuddiwch y pice gyda'r ŵy. Coginiwch am 20 – 25 munud nes yn euraidd.

Pwdin Afal Taffi

Cynhwysion

175 gm o fflwr codi

50gm o siwgr brown meddal

75gm o siwet llysieuol neu fenyn

Dwy lwy de o sinsir mân

1 ŵy

3 llond llwy fwrdd o syrur

zest un oren

150 ml o lefrith

1 afal bwyta weddi'i ddarnio.

Dull

1. Irwch fasn sy'n dal dau beint, cymysgwch y cynhwysion i gyd heblaw'r afal a'r siwgr gan ddefnyddio cymysgwr trydan.
2. Rhowch y syrur ar waelod y basn gan ychwanegu'r afal. Arllwyswch y gymysgedd dros y cyfan. Gorchuddiwch â 'cling film' a rhowch mewn ffwrn meicrodon(750w) am 12 munud. Gadewch i sefyll am 10 munud cyn troi'r cyfan allan ar blat.
3. Gweinwch gyda chwstard mewn disgiau pren yn yr ardd ar noson tân gwylt. – Mwynhewch.



Cegin Gareth

Goedwig

Llanbedr P.S.

SA48 7JP

01570 422 313

Blodau

Cacennau

Dathliadau

Partïon

LLEOL I MI Canolbarth

PAPURAU BRO

NEUADD COFFA

Mae rhannau o'r rhifyn hwn o CLONC ar safwe Cymru'r Byd y BBC:
www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc

MiS y PaPur NewYdd

Colofn Dylan Iorwerth

Sulwen oedd ein Olwen ni

Un o'r darnau hardda' yn yr hen chwedlau Cymraeg ydi'r disgrifiad o Olwen. Merch Ysbaddaden Bencawr, a'r un yr oedd yr arwr Culhwch wedi syrthio mewn cariad â hi.

Y disgrifiad ohoni sy'n bert – y rheswm pam y cafodd ei henw. Olwen ... Ôl-wen ... roedd y meillion gwynion yn tyfu yn ôl ei thraed lle bynnag yr oedd hi'n cerdded.

Meddwl amdani hi wnes i wrth sefyll dair wythnos yn ôl wrth yr iet yng Nghapel Brondeifi – fi a channoedd eraill. Meddwl amdani hi, ac am Sulwen, wrth gwrs.

Roedd hi'n ddiwrnod eironig o braf i ffarwelio â rhywun mor heulog ond, hyd yn oed petai wedi dechrau pistyllio bwrw, dw i'n weddol sicr na fyddai neb wedi symud modfedd o'r fynwent y diwrnod hwnnw.

Yn union fel yn yr hen chwedlau, roedd hi fel pe bai yna ryw rym yn mynnu ein bod ni yno. A llawer yn ofni edrych i lygaidd ei gilydd rhag i'r tristwch fynd yn ormod.

Dwn i ddim a fuodd Sulwen yn adrodd y darn hwnnw am Olwen erioed ond, yng nghefn fy meddwl y prynhawn hwnnw, ro'n i'n clywed ei llais yn ei ddweud. Mewn un ffordd arbennig iawn roedd yn ddisgrifiad ohoni hithau.

Y meillion yn achos Sulwen ydi'r holl blant a gafodd eu gwefreiddio ganddi, yn yr ysgol neu ar aelwyd Llain Deg wrth iddi eu dysgu i lefaru.

Mae athrawon da yn cael mwy o effaith nag y gallwn ni eu dychmygu ... nid oherwydd yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu ond oherwydd y brwdfrydedd y maen nhw'n ei greu.

Hyd heddiw, mi alla' i gofio am Miss Jones yn mynd â ni am dro ar lan yr afon yn Waunfawr a'i gweld hi'r funud yma yn dweud llinell Eifion Wyn am glywed "y migwyn dan wadn fy nhroed".

Dwn i ddim faint yr ydw i'n ei gofio o wersi mathemateg neu ysgrifennu yn ei dosbarth hi, ond mae'r cariad at eiriau a natur a hanes wedi aros.

Un felly oedd Sulwen hefyd – Mrs T, Mrs Thomas y bos yn Ysgol fach Cwrtnewydd. Roedd hi'n gweld y gorau mewn plant a, thrwy hynny, yn ei gael.

Does gen i ddim syniad am nefoedd a phethau felly. Ond dw i'n siŵr mai dyma ydi anfarwoldeb – os bydd yna blant yng Nghwrtnewydd ymhen canrif yn hoffi barddoniaeth a llefaru, mi fydd peth o'r diolch i Sulwen.

Lai na phythefnos wedyn, ro'n i mewn angladd arall a honno hefyd â chysylltiad anuniongyrchol ag ardal Clonc – er ei bod hi yn Waunfawr, Caernarfon, y pentre' lle ces i fy magu.

Am Antur Waunfawr y mae Gwynn Davies yn enwog – wedi ei ysbrydoli gan ei fab ei hun, ef a aeth ati i sefydlu'r fenter i greu gwaith go iawn i bobol ag anawsterau dysgu. Merch o Lanwnnen – Menna, Maesllan gynt – sydd bellach yn brif weithredwr ar y fenter arloesol honno.

Ond roedd Gwynn Davies yn athro hefyd – un o'r athrawon ysgol Sul lleia' confensiynol y gallech chi feddwl amdano. Roedd yn flaenor a chodwr canu hefyd ... ac eto ddim yn credu fawr ddim o gyffes ffydd y Methodistiaid.

Fel Sulwen, un i ysbrydoli oedd o. Alla' i ddim cofio be'n union ddywedodd o ar y prynhawniau Sul hynny bron 40 mlynedd yn ôl, ond mi alla' i gofio'r wefr o gael fy herio a fy ngwneud i feddwl.

Wrth i gartref Cartrefle gau ei ddrysau am y tro ola' yn Alltyblaca, roedd agwedd Gwynn Davies at bobol ag anfantais yn wefreiddiol hefyd. Nid er eu mwyn nhw'n unig yr aeth ati i sefydlu Antur Waunfawr ond er mwyn pobol y pentre' hefyd.

"Ei dawn i wylo yw gwerth dynoliaeth," meddai Dic Jones. Ond mi fyddai Gwynn Davies wedi ychwanegu, "ei dawn i ofalu am eraill".

24 Penrhedol, Penparcau, Aberystwyth. SY23 1QW

Annwyl Olygydd

Hoffwn drwy gyfrwng eich papur bro ddwyn sylw eich darllenwyr am ddigwyddiad arbennig sydd yn digwydd ar nos Sadwrn 10 Tachwedd yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.30y/h er mwyn cael codi arian tuag at Ward Iorwerth, Gofal Coronaidd y Galon yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

Cynhelir noson o ganu gwlad yng nghwmni'r ddeuawd fwyaf adnabyddus ym myd y math yma o ganu - sef John ac Alun, gydag arwerthiant o nwyddau yn mynd dan forthwyl y profiadol arwerthwr Glan Davies yn digwydd yn ystod y noson hefyd.

Os am archebu eich tocynnau sydd yn £6 yr un, cysylltwch â Megan ar 01970 612768 neu gyda'r Gwesty ar 01970 636333. Peidiwch ag oedi – neu fe fydd y tocynnau i gyd wedi mynd! Diolch yn fawr. Megan Jones




Dôl-Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder

Annwyl Blant,

Sut ydych chi? Gobeithio eich bod i gyd y iawn ac yn barod ar gyfer y tân gwyllt ar y 5ed o Dachwedd. Bydd yn siwr o fod yn dipyn o sioe ac y bydda i fel llawer i grwbau arall yn gwylio'r cwbl yn ddiogel drwy ffenest fy nghartref, gan ei bod yn rhy oer i fentro mas. Wel, mae'n braf gweld cynifer ohonoch wedi roi cynnig arni y mis hwn eto. Mae clod arbennig yn mynd i Miriam Butcher o Gaerdydd, Nia Haf o Llanybydder a Jasmine Davies o Bencarreg.

Ond yn dod i'r big y mis hwn mae Dafi Tom, Sarnicol, Capel Cynon, Llandysul. Da iawn a llongyfachiadau mawr i chi gyd. Cofiwch fynd ati i liwio y mis nesaf a'i ddanfôn araf erbyn dydd Llun, 26ain o Dachwedd.




**Enillydd
y mis!**


**Dafi
Tom**

Enw:

Cyfeiriad:



WELSH COUNTRY FOODS Ltd
GAERWEN, YNYS MON
Eisiau ŵyn a hen ddefaid o bob math o bwysau yn ddyddiol



Eich manteision:

- Pris da pob amser
- Gwasanaeth gan ein swyddogion maes profiadol yn rhad ac am ddim
- Cwmni annibynnol yr MLC yn pwysu a graddio'r wyn
- Telir bonws o £1 yr oen am ŵyn sydd yn "Farm assured" o fewn y pwysau 15kg i 21kg a wedi graddio yn E2, E3L, U2, U3L, R2 a R3L.
- Telir bonws am ŵyn sydd yn graddio yn E2, E3L + 15c/kg yn ychwanegol a U2, U3L + 8c/kg yn ychwanegol
- Mae gennym enw da am dalu yn gyflym
- Cludiant am ddim i'r lladd-dy.
- Mae gennym sawl lle i gasglu'r stoc yn eich ardal chi.

Am werthu hen ddefaid ar eich fferm heb gostau? Cysylltwch â'n swyddfa da byw yng Ngærwen:

- ☎ 01248 421111 (Est 100 a 102)
- Adrian Roberts 📞 07967 677479
- Cyd-lynnydd Da-Byw 📞 07967 987775

A oes diddordeb gennych mewn ymuno â'n tîm profiadol o swyddogion maes – galwch y Rheolwr da byw sef Adrian Roberts am sgwrs anffurfiol.

Lansio'r Llyfr Cymeriadau Bro



Twynog wrthi'n brysur yn arwyddo ei lyfr yn y noson lansio yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen ar Hydref 25ain

Mwynhau yn y noson lansio



Y gynulleidfa yn mwynhau y cymdeithasu ar ôl y cawl blasus.

Pigion yr ardal



Buddugwyr Siarad Cyhoeddus C.F.f. I. Ceredigion – Clwb Llanwenog.



Ysgol y Dderi yn dathlu deng mlynedd o Gynllun Comeniws yr ysgol. Roedd llawysgrifen Siapenieg ac origami o ddiddordeb mawr i'r disgyblion.



Pentref Llanybydder yn codi arian sylweddol i Ymchwil Cancr.

Cynulliad



Disgyblion Ysgol Gyfun Llambled yn ymweld â'r Cynulliad yn ddiweddar.